

ECO'r Wyddfa

Rhif: 432

Mai 2015

Pris: 70c



Ysgol gyntaf yng Ngogledd Cymru i lansio gwefan .cymru

Mae disgyblion Ysgol Gynradd Llanrug wedi cyffroi o ddeall mai eu hysgol nhw yw'r ysgol gyntaf yng ngogledd Cymru i gofrestru a defnyddio parth.cymru ar eu gwefan newydd sbon. Datblygwyd cyfeiriad gwefannau parth .cymru er mwyn hyrwyddo Cymru a rhoi statws uwch i'r Gymraeg yn y byd digidol. Rheolir y cyfeiriadau gan gwmni nid am elw, Nominet.

Mae gwefan www.ysgolllanrug.cymru yn cynnwys gwybodaeth i rieni a disgyblion am weithgareddau'r ysgol yn ogystal â dolenni cyswllt byw i'r disgyblion i safleoedd addysgol gan gynnwys rhai ar gyfer gwneud gwaith cartref a safleoedd pori yn ddiogel ar y we.

Croesawyd y datblygiad gan Gynghorydd Plaid Cymru dros ward Llanrug, Charles Wyn Jones.

Dywedodd Cyng. Charles Wyn Jones sy'n un o lywodraethwyr yr ysgol:

"Pleser mawr yw cael dweud mai Ysgol Gynradd Llanrug yw'r cyntaf yng Ngogledd Cymru i lansio gwefan .cymru ac mae hynny'n glod mawr i'r ysgol a'r staff. Gallwch gael mynediad iddo o gyfrifiadur, ipad, iphone a dyfeisiau android.

"Mae'r ysgol ar flaen y gad gyda thechnoleg gwybodaeth a bydd y wefan newydd yn galluogi'r ysgol i gynnig gwasanaeth ddigidol llawn i rieni erbyn Medi 2015."

Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu cynllun ipad 'un i un' sy'n galluogi disgyblion, athrawon, rhieni a llywodraethwyr i wneud defnydd llawn o'r ipad i gyfathrebu, rhannu adnoddau, llythyrau, ac fel cyfrwng gwaith cartref. Yn yr un modd mae'r Cynghorydd Charles Jones wedi gweld potensial y dechnoleg ipad fel rhan o'i waith fel Cynghorydd. Mae mwyafrif o ddogfennaeth a chofnodion pwyllgorau Cyngor Gwynedd bellach yn cael ei



dosbarthu yn ddigidol gan arbed miloedd mewn costau argraffu a phapur i'r Cyngor.

Ychwanegodd Pennaeth yr Ysgol, Robin Williams:

"Braf yw cael dweud ein bod wedi lansio'r wefan ar y diwrnod cyntaf yr oedd y cyfeiriad ar gael drwy gefnogaeth cwmni 'Delwedd' Caernarfon. Gwefan ddwyieithog yw hon sy'n gyfrwng pwerus i'r ysgol ac yn 'hwb' rhyngweithiol i rieni, disgyblion, llywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol.

Mae hefyd yn cynnwys dolenni byw i'r disgyblion ar gyfer safleoedd addysgol diogel fel Espresso, Purple Mash a HWB+i wneud gwaith cartref. Mae sicrhau safleoedd pori ac ymchwilio diogel ar y we i ddisgyblion Cymru yn flaenoriaeth cynllun HWB+ Llywodraeth Cymru. Mae yma hefyd lif byw o wybodaeth o dudalen gartref Trydar @YsgolGynLlanrug a mynediad i gylchlythyrau digidol o'r wefan o Dropbox.

"Rydym yn gobeithio y bydd gweithio'n ddigidol yn arbed costau ariannol argraffu

a llungopïo gan symud statws gwyrdd yr ysgol o arian i aur eleni. Mae'r her o leihau papur ac ailgylchu yn sialens i bob ysgol gan fod costau papur ac argraffu yn rhan fawr o wariant cyllideb.

Wrth i'r ysgol gwblhau'r hyfforddiant ar treialon HWB+ erbyn Mehefin 15, a sicrhau mynediad llawn i bob disgybl, rhiant, athro a llywodraethwyr i'r system, rydym yn gobeithio cyrraedd ein targedau i gyfathrebu a gweithio yn ddigidol o Medi 1af 2015.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU' RECO 2015

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Mehefin	Mai 17	Mai 29	Brynrefail
Gorffennaf/Awst	Mehefin 21	Gorffennaf 3	Bethel

RHIF 432

Mai 2015

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid

dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr

Ai chi fydd y teulu cyntaf i fod yn bencampwyr 'Fferm Ffactor – Teulu'?

Eleni, am y tro cyntaf erioed, bydd cyfle i'r teulu gystadlu am y teitl a'r brif wobr o gerbyd 4x4.

Rydym yn chwilio am deuluoedd o bedwar aelod (dros 17) fydd yn cystadlu ben ben â theulu arall yn wythnosol – nes yn y diwedd coroni un teulu gyda'r wobr a theitl 'Fferm Ffactor – Teulu' 2015! Os ydi'ch teulu CHI am ymgeisio i gystadlu yn 'Fferm Ffactor – Teulu' neu am enwebu teulu arall, yna llenwch y ffurflen gais yma: www.s4c.cymru/ffermffactor, ffoniwch Cwmni Da ar (01286) 685300 neu e bostiwch ffactor@cwmnida.tv

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeiswyr ydi Mai Sed 2015 – a bydd Cwmni Da yn ffilmio'r gyfres dros yr haf.

Gan edrych ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Gyda diolch

Tîm 'Fferm Ffactor – Teulu'

DIOLCH

Ar ran Seindorf Arian Deiniolen mae'n bleser gennyf anfon gair o diolch i bawb a gymerodd ran yn ein cynorthwyo i gasglu y "wish tokens", ble roedd y cyfrif terfynol yn 39,540 rhwng Hydref 14eg a Rhagfyr 6ed 2014. Derbyniwyd sic o £559.94 a fydd yn gymorth mawr iawn i ni at y gost o fynd â'r Band i Abertawe i Bencampwriaeth Cymru, ble llwyddodd y Band i gipio yr ail wobr a hynny yn ein gwadd i Bencampwriaethau Bandiau Pres Prydain yn Cheltenham, dydd Sadwrn Medi 18ed 2015.

Diolch o galon i bawb.
Meirion Jones, Ysgrifennydd

Gwrthwynebu Cynllun Trydan Glynrhonwy.

Annwyl Olygydd,

Parthed y sylwadau yn "Yn ystod y mis..." yn rhifyn Ebrill.

Tra fy mod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd creu swyddi yn lleol, rwyf yn anghytuno ynglyn â'r sylw y byddai'r cynllun yn "cynhyrchu pŵer trydan fydd yn lân ac yn ddiogel."

Teimlaf bod hyn yn gamarweiniol, ac mae'r camgymeriad yma'n ymddangos eto ac eto wrth drafod y cynllun, sydd o fantais i'r datblygwyr.

Nid yw cynllun "pump –storage" bob tro'n lân. Mae'r math yma o bŵerdy yn defnyddio mwy o drydan nac y gall byth ei gynhyrchu. Mae grym disgrychiant yn troi'r tyrbeini ac yn cynhyrchu trydan (ac yn anorfod yn cynhyrchu rhywfaint o wrês sydd yn cyfrannu at gynhesu pellach ar Lyn Padarn a'r torgoch druan), ond mae'n rhaid defnyddio mwy byth o drydan o ffynhonell arall i bwmpio'r dŵr yn ei ôl i'r gronfa uchaf. Mae'n rhaid cynhyrchu'r trydan ychwanegol mewn pŵerdai eraill, yn cynnwys drwy ddefnydd glô, nwy neu ynni niwcliar.. Y gwir ydi bod y trydan i bwmpio'r dŵr yn ei ôl yn cael ei brynu (yn rhad) yn ystod oriau'r nos a'r trydan a'i gynhyrchir yn cael ei werthu am bris uwch yn ystod y dydd. Camarweiniol yw awgrymu fod cynllun storfa-bwmp yn lân. Cynllun gwneud elw ydyw yn fwy na dim.

Glân? Na.

Gwyrdd? Na, mae gen i ofn.

Yr eiddoch,

Dr Robin Parry, Llanberis.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£30. Er cof am Alun Roberts, Bryn Madog, Brynrefail gynt a fuasai'n gant oed eleni.

£20: Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen. Di-enw.

£16. Olwen Ebrell, Coventry

£13. Arwyn Thomas, Stourbridge

£10: Llew Pritchard, Stryd Fawr, Llanberis; Rosina a Martin Worth, Niagra, Deiniolen; Pearl ac Eurwyn, Parc, Betws Garmon.

£5: Gwyneth Parry, Y Gelli, Rhes Eilian, Llanberis; Marcia Thomas, Dolwerdd, 2 Preswylfa, Llanberis; Gwyneth Roberts, Sw'n Y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis; Mona Parry, 13 Hafod Oleu, Deiniolen.

£4. Eleri Jones, Llanellwly

£3. Di-enw Llanrug; Er cof am Yvonne Pitts, Perthi, Llanrug.

Anfon lluniau i'r "Eco"

Mae llun camera neu gamera ffôn yn ffeil fawr. Er mwyn ei anfon ar y wê mae'r meddalwedd yn lleihau maint y ffeil i'w anfon yn gynt. Yr unig ffordd o leihau maint llun ydi drwy dynnu gwybodaeth ohono. Felly bydd y miliynau o flociau bach sy'n gwneud y llun yn cael eu cyfuno i flociau mwy. Bydd y llun yn edrych yn iawn ar sgrin ond yn ymddangos fel blociau mewn print.

Mae yna opsiwn i anfon y llun yn ei lawn faint ym mhob darn o feddalwedd neu ffôn. Rhaid chwilio amdano gan y bydd mewn gwahanol lefydd.

Os gwelwch fod llun yn llai na rhyw 130KB (KB nid MB) yna mae'n rhy fach i'w argraffu'n llwyddiannus. I weld maint llun rhowch glic dde arno, a dewis Properties yn y gwaelod.

Yn ystod y mis a aeth heibio

- Daeth y newyddion fod cwmni Trinity Mirror sy'n berchen ar y Western Mail, y Daily Post a'r Caernarfon & Denbigh Herald wedi penderfynu peidio adnewyddu eu lês ar y swyddfa yng Nghaernarfon. Y canlyniad yw y bydd olyniaeth y wasg Gymraeg a Chymreig yn y dref yn dod i ben ddiwedd Mehefin. Trefnwyd rali gan Undeb y Newyddiadurwyr i geisio dwyn perswad ar y cwmni i ail-ystyried, ac un o'r argymhellion oedd symud i swyddfa llai o fewn y dref. Ond nid yw'n ymddangos y bydd hynny'n digwydd, oherwydd mewn datganiad gan gwmni Trinity Mirror dywedwyd mai eu strategaeth bellach yw "gwneud gwell defnydd o dechnoleg a buddsoddi yn yr ochr hysbysebu a golygyddol yn hytrach nac mewn adeiladau."
- Er fod y dyddiad cau ar gyfer rhoi sylwadau ar Gynllun Lleol Gwynedd a Mon wedi mynd heibio, mae'r dadlau'n parhau. Cyflwynwyd sylwadau mewn dogfen gynhwysfawr gan dri mudiad iaith – Cylch yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith a Chymdeithas yr Iaith, sy'n feirniadol iawn o'r modd y daethpwyd i benderfyniad ynglŷn â nifer y tai sydd i'w hadeiladu o hyn i 2026. Y cwestiwn sylfaenol yw a oes angen bron i 8,000 o dai o fewn y ddwy sir? Ar un llaw honnir fod twf poblogaeth a'r galw lleol am dai yn cadarnhau hynny. Ar y llaw arall, dywed y mudiadau iaith na all 60% o drigolion y ddwy sir fforddio prynu'r tai newydd hyn. Felly, pwy sy'n mynd i'w prynu? Ac os mai o'r tu allan y daw'r prynwyr, yna bydd effaith ddifrifol ar safle'r Gymraeg o fewn cymunedau Gwynedd a Mon.
- Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol (wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru) yn edrych ar gyfleoedd busnes a gynigir yn sgil adeiladu Wylfa Newydd. Mae amcangyfrifon yn dangos y bydd £14 biliwn yn cael ei wario o hyn i 2024, a bydd 34% o'r swm enfawr hwn ar gael i'w wario yng Nghymru. Bydd angen cyflogi 6,800 ar gyfer y gwaith adeiladu. A fydd y gweithwyr hyn yn lleol i Wynedd a Môn? Teg gofyn felly a oes cysylltiad rhwng nifer y gweithwyr fydd eu hangen yn Wylfa Newydd a nifer honedig y tai sydd eu hangen yn y ddwy sir?
- Mae ceisiadau ar gyfer cynlluniau trydan-dŵr ar gynnydd yng Nghymru. Mae'r math hwn o greu ynni cynladwy o gymorth i ffermwyr, tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff sy'n penderfynu ar ffioedd trwyddedau ar gyfer y cynlluniau hyn, ac y mae swm o £375 am y cynlluniau ynni dŵr lleiaf i'w groesawu, yn enwedig gan y grwpiau cymunedol. Bydd cynlluniau masnachol mwy yn talu £1500. Rhoddwyd trwyddedau i 87 o gynlluniau y llynedd, ac eisoes mae cynlluniau bychan i'w canfod yn Eryri.
- Daeth diwedd glo llwyddiannus i ymgyrch bum mlynedd Heddlu Gogledd Cymru i roi diwedd ar weithredoedd aelodau o gang leol fu'n cyflenwi cyffuriau ar draws gogledd Cymru, ond yn benodol yn ardal Caernarfon. Carcharwyd 26 o aelodau'r gang am gyfanswm o 127 o flynyddoedd. Bu dros 200 o swyddogion yr heddlu o Ogledd Cymru, Glannau Merswy, Swydd Gaer a Manceinion yn cydweithio ar yr achos. Mae pawb fu'n ymwneud â'r ymgyrch i'w llongyfarch. Tristwch y sefyllfa yw fod rhywrai eisoes yn barod i lenwi'r gwagle a difetha mwy o fywydau yn ein cymunedau drwy bedlera cyffuriau.
- Erbyn i rifyn nesa'r "Eco" eich cyrraedd, bydd Y Lecsiwn wedi bod. Nid lle "Eco'r Wyddfa" yw dweud wrthyh i bwy y dylech bleidleisio (yn wahanol i'r mwyafrif o'r papurau 'cenedlaethol'); ond da chi, defnyddiwch eich pleidlais.
- Bu clodfori ers degawdau ar gyfoeth diwylliannol y fro, boed yn llenorion, beirdd neu'n gerddorion. Erbyn hyn mae unigolion o'r fro yn ennill clod cenedlaethol am safon eu sgiliau mewn gwahanol chwaraeon. Llongyfarchwn yr unigolion rheini sydd wedi eu dewis i gynrychioli eu gwlad mewn gwahanol gampau yn ystod y mis a aeth heibio. Gan obeithio y byddant yn ysbrydoliaeth i eraill o ieuenctid y fro eu dilyn a'u hefelychu.
- Ydi'r traddodiad o 'sbring clinio' yn parhau? Mae'n ymddangos ei fod, ond yn bentrefol yn hytrach nac mewn cartrefi unigol. Yn y rhifyn hwn rhoir sylw i weithgareddau nifer o grwpiau ac unigolion yn ymdrechu i dcluso eu cymunedau. Y trueni yw mai unigolion eraill o fewn y cymunedau hynny sy'n gyfrifol am y llanastr.

DIOLCH



Dymuna Dr Gwilym Pritchard a'i wraig Elen ddatgan eu diolch diffuant i drigolion ardal Eco'r Wyddfa ac yn arbennig Staff a chleifion Meddygfa Waunfawr am yr holl garedigrwydd a chefnogaeth a dderbyniwyd wedi geni Noa bach a'i driniaeth yn ysbyty Alder Hey. Bu i Noa dderbyn llawdriniaeth i gywiro ei fwa aortig a chau twll yn ei galon. Y mae bellach adref ac yn mwynhau setlo i mewn i fywyd yn Nyffryn Nantlle.

Ar fin hen ffordd

Er fod y cynghorau a'r cymdeithasau gwirfoddol yn hael ac wedi gwario a phlannu bencydd o friallu, bwtsias y gog, briallu Mair ac ati – mae'r llygad rhywsut yn gwybod mai ymdrech i brydferthu yn naturiol ai fel y bu sydd yma. Ar y llaw arall, yn sydyn, yn swil mae sêr nef y briallu naturiol yn dangos yn hen dwf ochrau'r ffyrdd, ac y mae'r cyfarwydd yn dynesu – yn wylaidd, ac yn cofio yr hen hen wanwynau lle roedd digon o friallu, briallu Mair a bwtsias y gog. Y cyfan yn Williams Parry o wefr...

Aros... synnu... rhyfeddu
dynesu...
tusw o friallu
yn dlws ar obennydd eu dail.

Gwybod... dirgel ffyrdd gwyddor
'n egluro'r
ffurf, math a'u tymor...
yn llu eu sêr lle sawr ei sail.

Norman Closs

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



Helfa Wyau



Plant Caeathro fu'n chwilio am y wyau y g ngerddi Glan Gwna

Unwaith eto cafodd plant Caeathro hwyl fawr yn darganfod wyau Pasg yng ngerddi Glan Gwna ar fore Sul y Pasg. Roedd yn fore godidog a dymuna'r Pwyllgor Cae Chwarae ddiolch o galon i Mr a Mrs Myfyr Jones a'u merch, Karen Element, nid yn unig am ganiatâd i ddefnyddio y gerddi, ond hefyd am baratoi lluniaeth a diod i'r plant, oedd yn wledd mewn gwirionedd. Diolch i Ceri a Hefin am baratoi ar ran y Pwyllgor a diolch i Hannah a Norman am guddio'r wyau mor ofalus. Mae'n braf gweld hen draddodiadau yn parhau!

Clwb Merched Daeth nifer dda o aelodau ynghyd ar Fawrth 26ain i glywed darlith ar daith i'r Arctic. Croesawodd y llywydd, Marian Hughes, Mr Alun Williams o Dreuddyn, sydd yn enedigol o Fethel ac sydd yn gyn brifathro Ysgol Gynradd Llanrwst. Cafwyd sgwrs a power point hynod o ddiddorol ganddo am ei daith i'r Arctic ac yn benodol i Spitzbergen a'r ynysoedd cyfagos. Amlygodd Mr Williams ei hun yn naturiaethwr gwybodus, yn ffotograffydd medrus ac yn sgwrsiwr diddorol iawn am ei helyntion gyda eirth gwyn, morloi, siarcod glas ac adar prin megis y ptarmigan. Diddorol oedd clywed na all y trigolion gladdu eu meirw oherwydd y rhew, felly mae'r cyrff ar yr wyneb dan dwmpathau o gerrig. Diolchwyr i Alun am noson arbennig gan Rhiannon. Edrychwn ymlaen i gael cwmni Arwel Jones o Hogia'r Wyddfa ddiwedd Ebrill.

Llongyfarchiadau Dymuniadau gorau i Julie Morris, Frondeg, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed ddechrau'r mis.

Gwellhad Deallwn fod Ifor Hughes, Lleifior wedi cael

damwain yn y pentref ac wedi treulio cyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd. Edrychwn ymlaen i'w weld o gwmpas y pentref eto yn fuan. Da clywed bod Bryn a Tony Griffiths hefyd yn dal i wella.

Gwasanaethau Capel Caeathro

Dydd Sul, Mai 3ydd am 2 o'r gloch gwasanaethir gan Y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson am 2o'r gloch y prynhawn.

Dydd Sul, Mai 17 (y Sul cyn y Pentecost) gwasanaethir gan Richard Ll. Jones am 2 o'r gloch y prynhawn.

Deiniol Hughes fydd llywydd y mis a Nia Jones fydd wrth yr organ.

Tacluso Caeathro Daeth 17 o bobl egniol y pentref ynghyd i dacluso'r pentref trwy gasglu sbwriel pobl flêr, o dan nawdd Cadw Cymru'n Daclus. Casglwyd 16 bag du mewn 2 awr. Dyma enwau y rhai fu'n casglu; Vera, Paul, Ceri, Anna a Tomos Alun; Rhys a'i fab Deio sydd yn flwydd oed!; Eryl a Luned, Dewi, Llio, Mari, Rhiannon, Hannah, Lisa Mai ac Eirian, Hefin a Begw. Y tro nesaf y bydd ymgyrch o'r fath gobeithiwn ddyblu rhif y casglwyr!!!

Diolch i Trefi Taclus Cyngor

Cymdeithas Caeathro yn Casglu Sbwriel



Yn ddiweddar mae nifer o gwynion wedi eu derbyn yn pryderu am lefelau uchel o sbwriel o amgylch ein cymuned yn Caeathro.

Felly daeth cyfle i drigolion cymuned Caeathro (oedolion a phlant) ddangos parch a balchder tuag at eu cymdeithas a gwella safon eu hamgylchedd drwy drefnu bore casglu ysbwriel.

Ar fore Sul, Mawrth 22ain bu cyfle i drigolion y gymuned leol gyfarfod yng Nghanolfan y Capel yng Nghaeathro am 10 y bore cyn gwasgaru gyda'u gefelau codi sbwriel i'r ardal gyfagos. Casglwyd sbwriel o amgylch y pentref, caeau chwarae, palmantau, a'r llwybrau cyhoeddus cyn dychwelyd am banded i'r Ganolfan.

Meddai Cyngorydd Cymuned Hannah Hughes 'Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb ddaeth draw i gefnogi a glanhau ar y bore Sul. Roedd yn gyfle gwych i drigolion Caeathro a'r cyffuniau ddod at ei gilydd a gwneud gwahaniaeth i'n cynefin drwy gasglu sbwriel er mwyn gwneud Caeathro yn daclusach lle, ac yn ardal gwerth ei weld. Llwyddodd y criw i gasglu 16 bag llawn o sbwriel. Mae hi wedi bod yn gret cael cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd a menter Trefi Taclus i gydweithio drwy ddarparu offer ar gyfer casglu sbwriel.'

A phwy a wyr, efallai bydd cyfle i sefydlu grŵp Balchder Cymuned Caeathro er mwyn cael amryw o weithgareddau yn y gymuned. Mae yna amryw o weithgareddau eraill wedi cael eu cyflawni gan grŵpiau cymunedau cyfagos, yn cynnwys plannu bylbiau gyda phlant ysgol leol, plannu coed, gosod basgedi crog trwy'r pentref a rhannu bagiau baw cŵn yn y gymuned leol.

Os ydych chi awydd sefydlu grŵp balchder Cymuned Caeathro mae croeso i chi gysylltu gyda Hannah Hughes 01286 672344 / 07816316236 hannahmedihughes@gwynedd.gov.uk

Gwynedd am y deunyddiau a'r cotiau melyn, a diolch eto i Hannah am wneud y trefniadau.

Tynfa mis Ebrill 1af (54) Harriet Roberts, 5 Erw Wen: £40; 2il (10) Dafydd Morris, Frondeg: £25; 3ydd (66) Nia Jones, 10 Rhes Glangwna: £15; 4ydd Brenda Tweedale, 14 Erw Wen: £5.

Eisteddfod yr Urdd Dymuniadau gorau i'r canlynol sydd yn cystadlu yn y Brifwyl yn ystod mis Mai;

I Steffan Element gyda Seindorf Bres Ysgol Bontnewydd;

I Sion Dafydd gyda Pharti

Bechgyn Ysgol Syr Hugh Owen I Betsan Ceiriog gyda Pharti Merched Hŷn Ysgol Syr Hugh Owen.

Pob lwc i chi i gyd a chofiwch roi gwybod am y canlyniadau i ohebydd Caeathro!!

Dysgwraig y Flwyddyn Llongyfarchiadau mawr iawn i Sue Powell, Bwth Bach, Llety, Caeathro, sydd wedi ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn yng Ngholeg Menai am eleni. Dim ond ers tair blynedd y mae Sue yn dysgu Cymraeg, ac mae hi yn llawn canmoliaeth i'w thiworiaid ym Mangor a Chaeathro. Da iawn chi, Sue.

Gwaith rhag-baratoi ar Gynllun Trydan Glynrhonwy.



Ers dechrau Ebrill mae contractwyr wedi symud i safle ger hen chwarel Cefn Du ac wedi cychwyn ar y gwaith o ddrilio o amgylch twll Chwarel Fawr. er mwyn canfod pa mor gadarn yw'r tir.

Dylan a Neil

DYLAN A NEIL



RHEDEG
(CÂN I ALUN VAUGHAN)

Mae'r ddeuawd canu gwlad Dylan a Neil yn rhyddhau sengl newydd sbon i gefnogi Alun Vaughan o Lanberis yn ei ymdrech i redeg Marathon Llundain. O weld ei frwdfrydedd, ei waith caled a'i lwyddiant fe'n hysbrydolwyd i sgwennu 'Rhedeg' iddo. Pob Lwc, Alun.

Yn ddeg oed cafodd Alun flas ar redeg wrth gystadlu yn Ras yr Wyddfa. Roedd y talent i redeg yn amlwg yn y bachgen o Lanberis. Ers hynny, mae wedi cynrychioli Cymru dros y byd – yn cynnwys Awstralia, Seland Newydd, Alaska ac Efrog Newydd. Daeth yn Bencampwr Marathon Cymru yn 2013 o 2014 a fo hefyd oedd enillydd yr enwog Marathon Eryri yn 2014. Eleni, mae â'i lygaidd ar redeg ei amser gorau ym Marathon Llundain. Daeth yn 22ain yn y ras y llynedd mewn 2 awr 24 munud, ac mae'n gobeithio gwella ar hyn eleni! Ymysg ei arwyr mae Mo Farah, Steve Jones a Haile Gebreselassie. Erbyn hyn yn byw yn Y Felinheli, yn briod ac yn dad i dri o blant, mae Alun yn rhedeg i'w waith yng Nghaernarfon bob dydd. Bydd yn rhedeg rhwng 70 a 100 milltir yr wythnos wrth ymarfer ar gyfer Marathon Llundain eleni.

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft


PRISIAU CYSTADLEUOL

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

grid76

dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Merched y Wawr

Wedi canu Cân y Mudiad gyda Glenys Griffiths yn cyfeilio - diolchodd Mair Price, y llywydd, i Bet ac Eirlys, Anwylyd ac Edwina am eu caredigrwydd yn cyfrannu at ein dathliadau deugain oed. Cydymdeimlwyd gyda Bet yn ei phrofedigaeth ddiweddar. Cawsom ein hatgoffa fod y dyddiadur ar gael i geisio ennill pryd o fwyd yn y Gardd Fôn a bydd cyfle olaf i gyfrannu'r Ategolion yng nghyfarfod mis Mai. Cytunwyd i anfon enw Mary Roberts, Llanrug ar gyfer yr is-drysorydd Cenedlaethol. Apeliwyd am wirfoddolwyr ar stondin y Galon yn Eisteddfod Maldwyn, pabell Merched y Wawr yn Sioe Llanellwedd a chynllun BODO – i ddarllen stori yn y Cylch Meithrin - cysylltwch â Rita os oes diddordeb. Bydd cyfle eto ym mis Mai i archebu cardiau Nadolig a dyddiaduron.

Ein gwestai am y noson oedd yr amryddawn Mrs Rhiannon Parry, cyn Olygydd Y Wawr. Wrth ei chroesawu atom, manteisiodd y llywydd ar y cyfle i estyn cydymdeimlad y gangen at Rhiannon a'i gŵr yn eu profedigaeth ddiweddar o golli eu mab. Dewis bwnc Rhiannon ar y noson oedd sgwrs hynod ddadlennol am y gwaith wnaeth William Salesbury (1520-1584) i gofnodi rhinweddau llysiau at iechyd. Wrth gwrs, fe ŵyr pawb am ei waith meistrolgar yn cyfieithu'r ysgrifurau i'r Gymraeg a chyhoeddi'r Llyfr Gweddi Cyffredin a'r Testament Newydd yn 1567, ond ychydig a ŵyr iddo hefyd adael llawysgrif yn cofnodi llysiau Meddyginiaethol. Dywedodd Rhiannon bod mawr ddiolch i Iwan Rh Edgar am olygu a sicrhau cyhoeddi Llysieuylfr Salesbury yn 1997. Gan

ddangos enghreifftiau o'r perlysiau, soniodd Rhiannon yn benodol am y wermod wen, persli, teim a saets. Dyfynnodd yn helaeth, a doniol iawn ar brydiau, o waith Salesbury oedd yn nodi'n fanwl sut y gellid, wrth eu defnyddio yn aml ac yn ddoeth, gael gwellhad o amryw anhwylderau'r corff, yn arbennig salwch y stumog a'r cylla. Hefyd fel petae i danlinellu ymhellach bwysigrwydd y llysiau hyn at iechyd, dewisodd Rhiannon ddarnau o farddoniaeth o waith Ann Jenkins Aberystwyth oedd yn ehangu ar y budd a geid wrth ddefnyddio'r planhigion dan sylw. Yn ogystal â siarad yn hynod ddifyr am y llysiau Llesol, dangosodd ein gwraig wadd amryddawn, ddewis perthnasol o'i gwaith llaw cywain, y cwbl ar y thema o llysiau a phlanhigion.

Diolchodd Mrs Gwyneth Jones yn gynnes iawn i Rhiannon am noson addysgiadol a difyr tu hwnt ac am draddodi'r sgwrs yn ei ffordd ddihafal ei hun. Eirlys Sharpe oedd wedi trefnu'r baned, ynghyd â chyfraniadau gan Liz Evans ac Edwina. Eryl a Mair Price enillodd y rafflau.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 13 o Fai pan ddisgwylir aelod o Sefydliad y Galon i'n hannerch (yr oedd yn gais gan ein Llywydd Cenedlaethol i gefnogi'r sefydliad pwysig yma).

Mynychodd pedair aelod sef Mair Price, Anne Elis, Gwyneth Jones a Rita Williams ginio'r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Cafwyd diwrnod arbennig o lwyddiannus gydag adloniant gan Steffan Rhys Hughes a Ceri Haf Roberts.

Ceir lluniau o'r gangen ar wefan www.mywbethel.org.

Clwb Bro Bethel Cyfarfu'r aelodau yng nghwmni'r Dr. Huw Roberts, Caernarfon y mis yma, ac yn dilyn y croeso arferol i bawb gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo, gyda chymorth lluniau, yn olrhain hanes ei bentref genedigol sef Moelfre, Ynys Môn, a chysylltiadau â'r ardal. Cawsom lluniau o olygfeydd glan môr y pentref yn y pumdegau, y tri degau ac ar droad y ganrif a ddangosai yn glir y newid a fu dros y blynyddoedd. Yn naturiol ni ellir sôn am Moelfre heb gyfeirio at longddrylliad y Royal Charter a hefyd Dic Evans a dderbyniodd ddwy fedal aur yr RNLI. Daeth yn amlwg yn fuan fod cysylltiad Dr. Roberts â'r teulu wedi bod yn gryf ym mywyd a thraddodiad morwrol yr ardal.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Jenkin Griffiths ar ran pawb oedd yn bresennol.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr gydag Ann Hopcyn, Caernarfon yn annerch, a hynny ar Mai Sed.

Cymdeithas Lenyddol Oherwydd rhesymau annisgwyl bydd yn rhaid gohirio swper pen-tymor y Gymdeithas tan nos Fercher, Mai 20 fed, a hynny yn Nhafarn Y Gardd Fôn, Felinheli. Cysylltwch efo Nora Parry, Sheila Roberts neu Glenys Griffiths am gopi o'r fwydlen. Trefnir bws.

Pwyllgor Eisteddfod Bethel Mae trefniadau ar gyfer Eisteddfod Bethel 2015 ar y gweill gyda Hydref 17fed wedi ei glustnodi fel diwrnod yr Eisteddfod. Bydd y Noson Ddawns yn cael ei chynnal nos Fawrth, Hydref 13eg, a'r Celf a Chrefft i'w gyflwyno ar Hydref 14eg.

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal Nos Fercher, Mehefin 3ydd 2015 yn Festri Capel Cysegr am 7pm lle byddwn yn dewis testunau ar gyfer yr Eisteddfod.

Diolch Dymuna Siôn Emlyn ddiolch o galon i bawb am gefnogi y Noson Lawen yn y Neuadd Goffa ar 13eg o Fawrth. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan, yn arbennig y plant a'u hyfforddwy. Diolch hefyd am bob rhodd tuag at y raffl.

Dymuna Siôn Emlyn, Seion, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau i Siôn Elwyn, Bryn Ogwen, ar dderbyn gradd MA gyda Rhagoriaeth o Brifysgol Bangor.

Sioe Ffasiwn Cynhelir Sioe Ffasiwn yn y Neuadd Goffa, Bethel nos Wener Mai 22 am 7.30 o'r gloch. Pris tocyn yn £5 i'w gael o'r cylch neu'r Swyddfa Bost. Bydd yr elw i'r Cylch Meithrin lleol. Bydd modelau proffesiynol yn arddangos y dillad a bydd cyfle am fargeinion. Croeso cynnes i bawb.



Menter Newydd Lloriau Menai

Clywir llawer y dyddiau hyn fod pobol o bob oed yn cael eu hannog i fod yn fwy mentrus mewn perthynas a byd gwaith, trwy sefydlu eu busnesau eu hunain a mynd yn hunangyflogedig. Dyna wnaeth David Henderson, a anwyd yn Llundain, ond a fagwyd yn Waunfawr ym mro'r Eco a'i bartner busnes Mathew Cook a fagwyd yng Nghaernarfon.

Arferai Dave fod yn reolwr Partco/Unipart ym Mhorthmadog. Yn anffodus, penderfynodd y cwmni hwnnw ddod a'i fusnes i ben, gan wneud dros 2000 o bobl yn ddi-waith. Gan fod yr economi ar ei fyny, penderfynu sefydlu busnes wnaeth Dave a Mathew Cook. Mae Lloriau Menai (Flooring) yn gwerthu ac yn gosod carpedi, ynghyd a phob math o ddeunydd lloriau eraill. Mae cartref y busnes ym Mhorthaethwy, ger tafarn y Fourcrosses.

Sefydliad y Merched Ymhlith gweithgareddau Ebrill bu noson Bingo lwyddiannus Grŵp Eryri yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis. Rhoddwyd cyfle yng nghyfarfod o'r gangen yn ystod y mis i'r aelodau ymuno â chyfarfod Cymdeithas yr Eglwys Bresbyteriaidd gyda'u siaradwr gwadd, y Parch Harri Parri, Caernarfon, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Trefor Jones a Mrs Nan Parri. Estynnwyd croeso i aelodau y Gymdeithas a'r gwahoddedigion gan y llywydd, Pat Jones, a rhoddwyd diolch am noson bleserus gan Carol Houston. Hefyd trefnwyd noson "Dewch i Drio" gan Is-bwyllgor Chwaraeon y Ffederasiwn yn y Ganolfan Llanberis lle roedd nifer wedi dod i ddysgu sut i chwarae Boccia a 'New Age Kurling'. Bydd y tîm dartiau yn cystadlu yn y rownd derfynol yng Nghlwb Golff Pwllheli. Dymunwn yn dda iddynt yn yr ornest. Edrychir ymlaen yn awr at ginio y Ffederasiwn yng Ngwesty St George, Llandudno. Mae eleni yn flwyddyn bwysig i Sefydliad y Merched yn

genedlaethol wrth ddathlu'r cant oed. Bydd nifer dda o'r aelodau yn mynd i weld Baner y Canmlwyddiant NFWI i Fiwmares. Maellawer o aelodau wedi cymryd rhan i greu Baner Gwynedd Caernarfon fydd yn cael ei harddangos yn ail o dair ar ddeg o faneri o bob Ffederasiwn yng Nghymru. Mae'r baneri yn adrodd hanes Sefydliad y Merched ers ei ddechrau gan mlynedd yn ôl yn Llanfairpwllgwyngyll a phob Sefydliad yn cyfrannu i gyfnod arbennig o'r can mlynedd gyda digwyddiadau hanesyddol o fewn y cyfnod hwnnw. A golwg ar yr wythnosau i ddod, edrychir ymlaen at y cyrsiau undydd ym Mhlas Tan y bwlch. **Yr Eglwys Bresbyteriaidd** Gwasanaethau Dathlwyd Gŵyl y Pasg gydag oedfa dan arweiniad y gweinidog, y Parch Marcus Robinson. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Nos Sul, Ebrill 20fed cafwyd oedfa wedi ei threfnu gan lywydd y mis, Lowri Prys Roberts, yn seiliedig ar y cyfnod rhwng y Pasg a'r Esgyniad - Y Dyrchafael eleni ar Fai 14eg. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y llywydd a

chwymerwyd rhan gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Dafydd Ellis ac Iris Rowlands. **Y Gymdeithas** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Y Gymdeithas, nos Iau, Ebrill 16eg. Ein Gweinidog, y Parch Marcus Robinson, oedd cadeirydd y noson. Wedi ein harwain mewn defosiwn fe groesawodd yn gynnes y siaradwr gwadd, y Parchg. Harri Parri, Caernarfon. Manteisiwyd ar y cyfle yn y cyfarfod arbennig hwn i'r gangen leol o Sefydliad y Merched gael ymuno i flasu'r cyflwyniad wedi ei seilio ar waith ymchwil y Parch Harri Parri i hanes y Parch Ddr John Williams, Brynsiencyn, yn ystod yr ymgyrchu adeg y Rhyfel Mawr ac a gyhoeddwyd ganddo yn ei lyfr "Gwn Glân a Beibl Budr". Ychwanegwyd at y sgwrs gampus hon gyda chyfraniad arbennig y Parch

Trefor Jones yn ei gyflwyniadau arbennig o lèn a barddoniaeth yn gysylltiedig â'r testun a'r darluniau perthnasol a arddangoswyd gyda chymorth ei briod, Nan Parri. Diolchwyd am noson ddiddorol iawn gan y cadeirydd. Diolch hefyd i Pat Jones, cadeirydd Sefydliad y Merched lleol am gyd-drefnu ac am y lluniaeth baratowyd ar y diwedd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Mai 12fed am 7 o'r gloch yng nghwmni Ralph Jones, Llanberis. **P r o f e d i g a e t h** Cydymdeimlwn yn ddwys â Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Margaret Jane Jones, gynt o Rhos Isaf ond a oedd ers peth amser yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun lle bu farw ar Fawrth 14eg.

Oedfaon Mai am 5.30 yr hwyr

- 3: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
 - 10: Mr Huw Fôn Roberts, Brynrefail
 - 17: Mr Dafydd Iwan, Caeathro
 - 24: Canon Idris Thomas, Deiniolen
 - 31: Parch Harri Parri, Caernarfon
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

CWMYGLO

Diolch i swyddogion Menter Fachwen am i ni gael defnyddio ystafell ar gyfer y gwaith o fwndelu yr Eco mis diwethaf. Diolch arbennig i Carolyn am y baned.

Llongyfarchiadau i Margaret Williams, Bryn, ar enedigaeth ei ŵyr bach, Hari Gwilym, mab bach i Keith a Rhian.

Llongyfarchiadau hefyd i Nigel Williams, Aran, ar ddod yn daid i Leo, mab bach i Steph a Iestyn. Anrheg arbennig ar ei ben-blwydd yn ddwy oed i'w frawd mawr, Cai, ac i'w fodryb, Becky, gan fod y tri wedi eu geni ar yr un dyddiad.

Cymanfa Cylch Deiniolen a Chwm y Glo 2015 Cynhelir y Gymanfa eleni b'nawn Sul, Medi'r 20fed am 2 o'r gloch yn Neuadd Gymuned, Penisarwaun.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn festri Elgwys Sant Mair, bnawn Mawrth, Ebrill 21. Croesawodd yr arweinydd bawb i'r cyfarfod, hefyd ein gŵr gwadd, Mr Joe Large. Cafwyd gwasanaeth byr dan arweiniad Pat Walden ac adroddwyd gweddi Undeb-y-Mamau. Cafwyd adroddiad gan Auriel am gyfarfod a gafwyd mis Mawrth a thrafodwyd rhai materion. Lliw y gangen yn y Sêl Enfys a gynhelir 19 Mehefin yn y Gadeirlan yw gwyrdd. Darllenwyd llythyr oddi wrth Gwen Baxter yn diolch am y cerdyn yn dymuno gwellhad buan iddi.

Cyflwynwyd ein gŵr gwadd, Mr Joe Large, aelod ffyddlon o'r eglwys. Soniodd Mr Large am ei fywyd fel plismon yn cerdded strydoedd Lerpwl, ei ddychafiad i ringyll yn yr adran cyffuriau ac wedyn yn archwiliwr yn mynd o amgylch ysgolion Lerpwl. Y mae wedi ymddeol yn awr ac yn byw yn y Felinheli. Mwynhawyd ei sgwrs yn fawr. Diolchwyd iddo gan Auriel. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Joyce Ransom. Diolchwyd iddi gan Hilda. Enillwyd y raffl gan Auriel. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd Y Gras y Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf 19 Mai. Bwrdd gwerthu.

Miloedd yn gwylio 'The Mountain'.

Bu'r gyfres deledu a ddarllledwyd ar ITV Cymru yn gynharach eleni yn llwyddiant digamsyniol. Fe'i darllledwyd ar nosweithiau Llun, ac yr oedd yn cystadlu yn erbyn cyfres boblogaidd 'Eastenders' ar y BBC, a hefyd yn erbyn y gêm beldroed yng Nghwpan yr FA rhwng Lerpwl a Manchester United ar un noson. Meddai Aled Llyr, Cyfarwyddwr Slam Media, y cwmni fu'n gyfrifol am y rhaglen: "Diolch i "Eco'r Wyddfa" am roi sylw blaengar i'r gyfres ac i ddarllenwyr y papur a thrigolion yr ardal am eu cefnogaeth. Cafwyd ymateb anhygoel gan wylwyr ITV Cymru ac ar amryw wefannau cymdeithasol."

Daeth nifer helaeth o ymatebion cadarnhaol a chefnogol o du draw i Glawdd Offa, a'r gobaith yw y bydd y gyfres yn cael ei darlledu ar y rhwydwaith Prydeinig.

Meddai Jonathan Hill, Uwch Gynhyrchydd gyda ITV Cymru: "The Mountain took us to the heart of Snowdonia and its people through the changing seasons. Breath taking photography combined with wonderful story telling made it one of the most watched programmes on the channel in 2015."

Llongyfarchwn bawb fu'n gysylltiedig â'r rhaglen, gan edrych ymlaen am y cynhyrchiad nesaf o safon cyffelyb.

Bydd Slam Media/Cread yn cynhyrchu rhaglen unigol ym mis Mai o'r enw "Y Mynydd" ar gyfer Radio Cymru - sydd fwy neu lai yn fersiwn Gymraeg o'r fformat Saesneg gyda Dewi, Steff, Alwena, Helen a chriw Tim Achub Mynydd Llanberis yn cyfrannu yn eu mamiaith.

PENISARWAUN

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk



Diolch Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maen Gwynfa, Deiniolen ddiolch o waelod calon i aelodau Eglwys Santes Helen, Penisrwaun, y Parchedig Jeffrey Hughes, y Warden William Williams, a'r ysgrifennydd Selwyn Griffiths am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd yn gant - am y blodau, yr anrheg a'r holl gardiau. Dymuna Anti Beryl hefyd ddiolch yn ddiffuant i'w holl deulu ym Mhenisarwaun a West Bromwich am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd.

Diolch yn Fawr Dymuna Dilys, 7 Llys y Gwynt, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod adref. Diolch arbennig i'r llawfeddyg, staff Ward Ffrancon, a staff Ysbyty Llandudno. Diolch yn fawr i bawb.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun - Pêl Bonws Loteri Enillydd Mis Mawrth oedd Mrs Ann Patterson rhif 48. Llongyfarchiadau!

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Gwasanaeth Boreol - Croesawyd Mr Andrew Setattree i'r Ysgol fore dydd Mawrth, 17/3/15 i gynnal y Gwasanaeth.

Eisteddfod yr Genedlaethol yr Urdd Caerffili Llongyfarchiadau mawr i'r Parti Unsain am ddod yn 1af yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn ddiweddar. Byddant yn cystadlu yn yr Eisteddfod yng Nghaerffili dydd Llun, Mai 25ain - pob lwc iddynt!

Ymweliad Croesawyd aelod o'r Gwasanaeth Tân i'r Ysgol bore Mercher, Ebrill 22ain, i roi sgwrs i blant Bl 2 a Bl 5 a 6.

Ffarwelio Bu raid i ni ffarwelio gyda Miss Megan Jones sydd wedi bod yn Gymhorthydd yn yr Ysgol am tua 3 blynedd. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd

yn Ysgol Llandegai.

Ysgol Sul Bosra Rydym i gyd, yn athrawon, aelodau a rhieni'r Ysgol Sul yn anfon ein cofion anwylaf at Mr Evie Jones, 3 Bryntirion, Arolygwr ffyddlon a gofalus ers blynnyddoedd maith, wedi iddo ddisgyn gartref a chael triniaeth i'w glun yn Ysbyty Gwynedd. Mae bellach yn Ward Peblig, Ysbyty Eryri, Caernarfon. Mae'r plant i gyd yn gweld ei golli yn fawr ac yn holi amdano. Dymunir gwellhad buan.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd Rhian Thomas, Seion a Delyth Williams, Pengaer.

Cynhaliwyd 'Hwyl y Pasg' ar Fawrth 26ain gydag amrywiol gystadlaethau, stondinau a raffl. Dymunir diolch i Susan ac Elinor am feirniadu'r holl gynnyrch, gyda chanmoliaeth uchel i'r holl gystadleuwyr. Diolchir hefyd i'r ffyddloniaid sy'n cefnogi'r gweithgareddau yn gyson, mae eich cefnogaeth yn amhrisiadwy tuag at y gost o reoli'r Neuadd Gymuned - swm sy'n sylweddol yn flynyddol.

Cynhelir 'Miri Mai' ar nos Fercher, Mai 20fed am 6.30 gyda stondinau, gemau, raffl a phaned a bisgedi ac amser i gymdeithasu.

Eisteddfod Bentref 2015 Cynhelir yr Eisteddfod ar nos Wener, Hydref 16, gan obeithio fod yr amser yma'n hwylusach i'r Adran Uwch wedi arholiadau'r haf.

Gwellhad Buan Rydym yn falch o ddeall fod Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, yn gwella'n dda wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Anfonir ein cofion hefyd at ffrindiau eraill yn y pentref sydd wedi bod yn sâl. Brysiwch wella i gyd.

Cymanfa Cylch Deiniolen a Chwm y Glo 2015 Cynhelir y Gymanfa eleni b'nawn Sul, Medi'r 20fed am 2 o'r gloch yn Neuadd Gymuned, Penisarwaun.

Eich DENu i adeiladu dros blant bregus y byd

Mae Achub y Plant wedi lansio ymgyrch Diwrnod y Den, sef cyfle i'r teulu cyfan i godi arian ac i gael hwyl ar yr un pryd. Rhwng 29 Mai a 6 Mehefin mae'r elusen yn gofyn i bawb i roi eu dychymyg ar waith a mynd ati i greu'r 'Den' orau erioed.

Mae Diwrnod y Den yn gyfle i greu cuddfan greadigol ar gyfer achos da; fe allwch chi noddi eich hunain neu deulu a ffrindiau i dreulio amser neu ddiwrnod neu noson mewn Den. Trwy godi arian ar gyfer Achub y Plant rydych chi a'ch teuluoedd yn helpu i adeiladu bywydau gwell ar gyfer plant ar draws y byd, plant nad oes ganddynt le diogel i gysgu neu chwarae ynddo. Yn 2014, ymatebodd Achub y Plant i 84 argyfwng mewn 47 o wledydd - dosbarthwyd bwyd i achub bywydau, dŵr, gofal iechyd, addysg a lloches i dros 5 miliwn o bobl. Bydd yr arian a godir gan Ddiwrnod y Den yn fodd i ddarparu'r cymorth hanfodol hynny i blant a'u teuluoedd y tro nesaf y bydd argyfwng dinistriol yn taro.

Mae'n hawdd i gymryd rhan, p'un a ydych yn pentyrru clustogau a chreu 'tipi' cartref allan o flancedi, trawsnewid y lolfa i mewn i ffau, neu'n troi focs cardfwrdd i mewn i dwnnel o fyd hudol; does dim pendraw ar yr hyn y gallwch chi ei greu. Gall plant ac oedolion gofrestru ar y wefan - www.denday.org - er mwyn derbyn pecyn gwybodaeth yn llawn syniadau a chynghorion.

Mae'r cyflwynydd natur ar S4C a'r BBC, Iolo Williams yn cefnogi Diwrnod y Den Achub y Plant: "Dwi'n ffan mawr o adeiladu dens ac mae gen i gymaint o atgofion melys am adeiladu rhai allan yn y goedwig ger fy nghartref ym mhentref Llanwddyn pan yn fachgen ifanc. Fe roddodd flas i mi ar fywyd y tu allan yn yr awyr agored ac roedd yn ffordd o arbrofi a darganfod ynghanol natur. Ewch ati blant Cymru i adeiladu er mwyn helpu plant llai ffodus ar draws y byd. Mi fydd yn brofiad i'w gofio dwi'n siŵr."

Meddai Mary Powell-Chandler, Pennaeth Achub y Plant Cymru: "Does gan filiynau o blant ledled y byd ddim lle diogel i gysgu; i nifer does ganddyn nhw ddim gwely, blancedi neu hyd yn oed do uwch eu pennau. Trwy adeiladu Den a chodi arian, gallwch helpu i roi lloches gynnes ddiogel i blant o amgylch y byd i gael cyfle i freuddwydio."

I gofrestru ewch i www.denday.org

Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau - Gwynedd ar y brig

Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf gan y llywodraeth ar berfformiad cynghorau yn dangos fod Gwynedd yn parhau i wella a'i fod y cyngor a berfformiodd orau trwy Gymru ar draws yr amrediad o feysydd gwasanaethau a aseswyd.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Awdurdod Lleol 2013-14 gan Lywodraeth Cymru yn dangos fod Cyngor Gwynedd wedi perfformio yn well na chyfartaledd Cymru mewn 63% o'r gwasanaethau a aseswyd, gyda 70% o'r gwasanaethau yn cynnal neu wella perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Edwards:

"Mae'r adroddiad annibynnol yma yn cadarnhau fod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i barhau i wella gwasanaethau ac i fod yn uchelgeisiol ar ran pobl Gwynedd yn ystod un o'r cynghorau mwyaf heriol yn hanes yr awdurdod.

"Gyda phob un o gynghorau Cymru yn gorfod ymdopi gyda phwysau ariannol anferthol, dylai ein staff ymroddedig, cynghorwyr a phartneriaid fod yn falch o'u hymroddiad amlwg i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib i drigolion y sir."

Ychwanegodd Prif Weithredwr y Cyngor, Dilwyn Williams: "Mae'r gwaith o wella gwasanaethau lleol allweddol yn sialens barhaus mewn unrhyw gyfnod, ond mae gwneud hynny mewn amser o lymder digysail gwirioneddol yn gamp.

"Dros y blynnyddoedd nesaf bydd yn rhaid i Wynedd wynebu heriau ariannol sylweddol tu hwnt lle na fydd gennym ddewis ond newid y ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau ac mewn rhai achosion yn torri gwasanaethau.

"Mae'r adroddiad annibynnol yma yn cadarnhau fod ein staff yn parhau i ddarparu dros bobl Gwynedd mewn cyfnod o newid parhaus a lle mae adnoddau yn gostwng. Mae hyn yn dangos ein bod mewn sefyllfa dda i ymdopi gyda'r storm ariannol y byddwn yn ei wynebu."

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch - Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD

Profedigaeth Cydymdeimlwn fel ardal yn fawr iawn hefo'r Parchedig a Mrs John Pritchard a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Bu farw mam Mr Pritchard yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun yn 90 mlwydd oed. Colled fawr i'r teulu. Bu y gwasanaeth yn gyhoeddus yng Nghapel Coch, Llanberis, ar ddydd Gwener, 27 Mawrth. Yn arwain yr oedfa roedd Mr Pritchard ei hun hefo cymorth dau o'i ffrindiau, sef y Parchedig Robert O. Roberts, Morfa Nefyn a'r Parchedig Athro Euros Wyn Jones, Llangefni, a'r organyddes oedd Mrs Bethan Harding.

Roedd y capel yn orlawn, gyda rhai aelodau o bob un o eglwysi'r ofalaeth wedi dod i dalu y gymwynas olaf i'w fam.

Credaf fod Mr Pritchard wedi dangos pa mor gryf a chadarn yw ei ffydd yn gallu cymryd y gwasanaeth a thalu teyrnged olaf i'w fam.

Mae ein meddyliau gyda'i dad, sef Mr Myrddin Pritchard, yn y cartref ym Mhenisarwaun, mae wedi colli ei ieched ac yn gwybod dim am beth oedd yn cymryd lle. Deallaf ei fod yn cael caredigrwydd mawr yn y cartref a diolch i Dduw am hynny. Mae yn ei haeddu. Gobeithio y cânt fel teulu nerth ac ieched yn ystod yr oriau tywyll yma. Boed iddynt gael Duw yn agos pan y daw hiraeth. 'Yn angof ni chaiff fod'.

Rhodddwyd i orffwys ym Mynwent Nant Peris.

Tymor y Gwanwyn A'r Pasg y tu ôl i ni erbyn hyn a thymor

y gwanwyn wedi cyrraedd, yr adeg yma mae llawer yn mynd tua'r fynwent. Yr oedd yn braf gallu mynd yno ar Sul y Blodau, er yn ddigon oer, ond mae Mynwent Macpelah Deiniolen yn hynod o dwt a thaclus ac yn edrych ar ei gorau hefo'r blodau ar feddau anwyliaid. Er yr holl doriadau mae Cyngor Gwynedd i'w llongyfarch ar y gwaith da y maent wedi ei wneud ar y fynwent.

Carwn ddiolch o galon iddynt am yffordd ardderchog y maent yn edrych ar ôl y lle, gan fod hyn yn golygu llawer i'r anwyliaid sydd yn tyrru yno ar Sul y Fam a Sul y Blodau. Diolch yn fawr Gyngor Gwynedd.

Cennin Pedr Ar noson braf yn ystod y dyddiau hyfryd a gawsom yn ddiweddar euthum, ymysg llawer un arall, i'r Allt Ddu am dro lle y gorwedd carreg goffa y chwarelwyr. Yr oedd y lle yn edrych yn hynod o hardd gan ei fod wedi ei lenwi hefo Cennin Pedr. Nid ychydig ond llawer ohonynt ac yn tynnu sylw pawb atynt. Rwyf yn gwybod mai Clwb Orwig oedd yn gyfrifol am eu plannu yno a diolch iddynt am hynny. Ni wn pwy sydd yn edrych ar eu hól hwy yn awr ond mae gwaith da yn cael ei wneud yno a diolch i'r person hwnnw.

Y gresyn yw, ymysg y dyrfa oedd yno y noson honno yr oedd llawer o gŵn yn rhedeg yn rhydd i wneud fel y mynnent – mae'n rhaid dweud nad cŵn Dinorwig oeddynt. Er bod bin yno i roi y sbwriel mae gennyf ofn fod llawer ohonynt yn euog o'i daflu wrth eu traed.

Da chi os am ddod i'r man yma, tennyn ar y ci os gwelwch yn dda a'r sbwriel i'r bin neu i'ch ceir chwi eich hunain a mynd â fo gartref.

Buasai y chwarelwyr yn falch iawn o weld y Gofeb heddiw, a'i bod yno i gofio amdanynt, er mor galed oedd y gwaith a'r cyflog mor fychan Coffa da amdanynt.

Cyfarfod Sefydlu Gofalaeth Bro'r Lechan Las Ar nos Sul, 2 Mawrth, bu cyfarfod sefydlu y Parchedig D. John Pritchard yn weinidog ar Eglwysi Annibynnol Bethlehem a Charmel, Llanllechid. Llywydd y cyfarfod oedd y Parchedig Geraint S. Hughes. Aeth llond bws ohonom yno a braf oedd gweld y capel yn orlawn a'r tywydd wedi bod yn garedig gan ei bod yn nos Sul braf.

Cafwyd cyfarfod bendithiol iawn.

Diolch i ferched y ddwy Eglwys am baratoi lluniaeth inni ar ôl yr oedfa a hwnnw yn fwyd cartrefi gyd. Diolch yn fawr. Ar y ffordd adref pawb yn dweud yn dda am y cyfarfod.

Gobeithio y byddwn fel Eglwysi yn gallu cydweithio â'n gilydd. Mae pethau yn addawol iawn ar hyn o bryd a gobeithio

y cawn gyfarfod â'n gilydd yn achlysurol er mwyn dod i adnabod ein gilydd yn well.

Ein dymuniad mwyaf yw ar i Mr Pritchard gael nerth ac ieched i wneud y gwaith. Mae ei ffydd yn gadarn a, hefo help gennym ni fel aelodau o'r eglwysi, mae pethau yn edrych yn addawol iawn. Felly fel aelodau mae angen i ninnau ar adegau roi ein hysgwydd dan y baich i gynorthwyo ein gweinidog, a thrwy hynny fe ddaw llwyddiant i'r eglwysi a'r gweinidog.

Marwolaeth Ar 13 Ebrill bu farw Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch gynt. Bu farw yn y cartref ym Mangor yn 91 mlwydd oed. Er ei bod wedi bod yn wael ers peth amser fe fu farw yn sydyn yn ei chwsg pan oedd neb yn disgwyl hynny. Roedd y cynhebrwng ar ddydd Llun, 20 Ebrill yng Nghapel Sardis am 1 o'r gloch ac yn Amlogsgfa Bangor am 2.15. Fe fydd mwy i ddilyn yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofion annwyl at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, sydd yn cartrefu yn Plas Garnedd Llanberis ar hyn o bryd. Fel ardal yr ydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyrati yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Alice Griffith. Boed ichwi gael nerth i ddal y golled fawr.

Englyn er cof am Alis Gruffydd

Adref! Dinorwig i'w odre, - yr hollt
Ar ei hól sy'n wagle
di-feth – bu'n wraig y 'pethe',
i Lwydd pob Llwydd, rhaid rhoi lle.

Norman Closs

YSWIRIANT FUW

 Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd-destyn cyfringu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

 **GERAINT OWEN**
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Hir-hoedledd ym mhlwyf Llanberis.

Yn rhifyn Mawrth o'r "Eco" adroddwyd am deulu Llwyn Bedw, sef Morris Davies a'i wraig, Jane, a fu'n briod am 64 o flynyddoedd, a 132 o'u disgynyddion yn parhau'n fyw yn 1821. Daeth mwy o wybodaeth am y teulu gan Hywyn Williams (Deiniolen gynt), sydd hefyd yn un o ddisgynyddion y teulu hwn.

Bedyddiwyd Maurice (dyna'r ffurf gynnar o gofnodi'r enw yn y cofrestrau eglwysig) ar y 18fed o Dachwedd 1735 yn Eglwys Sant Peris, yn fab i David Preece (Dafydd ap Rhys mae'n debyg) a'i wraig Catherine o Lwyn Bedw. Fe'i priodwyd ar y 27ain o Fedi 1758 yn yr un eglwys gyda Jane William o Fron Rodyn. Ym mis Awst y flwyddyn ddilynol bedyddiwyd eu plentyn cyntaf, William. Erbyn hyn, Morris David yw'r enw a ddefnyddir yn y gofrestr, a llafurwr oedd wrth ei alwedigaeth. Yn dilyn William daw David (13 Ionawr 1760), Harry (29 Awst 1762), Catherine (6 Mai 1764), Thomas (13 Rhagfyr 1765), Ellin (22 Tachwedd 1768), Rowland (16 Rhagfyr 1769), Hannah (7 Chwefror 1772), Ellis (8 Rhagfyr 1772), ac Elizabeth 28 Mehefin 1778).

Erbyn dyddiad bedydd Harry yn 1762 mae Morris David yn cael ei ddisgrifio fel iwmon. Mae'n bosib ei fod erbyn hyn wedi cymryd meddiant o'r fferm oddi wrth ei dad.

Claddwyd Jane William ar y 4ydd o Ebrill 1821 yn 92 mlwydd oed. Cadwodd ei henw morwynol gydol ei hoes, a dyna'r drefn bryd hynny, wrth gwrs. Bu Morris David hefyd fyw i fod yn 92 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ar y 15fed o Fedi 1824. Cofnodir ef bryd hynny fel Morris Davies, ond nid yn Llwyn Bedw roedd yn byw ar ei farwolaeth, ond yn y Coed Mawr. Mae'n bosib ei fod wedi symud yno at Harry, ei fab wedi colli Jane dair blynedd ynghynt. Roedd Harry yn briod efo Janet/Sioned Ffoulk, merch Grace William a Ffoulk Morris, Coed Mawr. Roedd Elin, merch arall iddynt yn briod a Pierce John Wheldon, a dyna gangen arall y teulu hwnnw yn ardal Llanberis.

Ond, roedd gan Morris David ferch arall hefyd, sef Jane, a anwyd cyn iddo briodi yn 1758. Mae ei bedydd hi wedi ei gofnodi yng nghofrestr y plwyf ar y 3ydd o Hydref 1755, cwta fis cyn i Morris gael ei benblwydd yn ugain oed. Fe'i cofnodir fel merch Morris David "single man and Catherine John, his concubine."!

Oes rhywun arall yn fodlon cydnabod eu perthynas a'r teulu hynod hwn?



"Llanddeiniolen School Board."

Daeth gwybodaeth ddiddorol i law gan Owen Jones, Llangefni, am addysg gynnar yn ardal y Rhiwlas. Magwyd ei dad yn nhyddyn Maes Meddygon ar lethrau Moel Rhiwen uwch pentref Rhiwlas. Roedd taith o tua dwy filltir yn wynebu'r plant i'r ysgol. Ganwyd Robert Jones yn 1885, a mynychai ef a'i ddwy chwaer Ysgol Rhiwlas. Roedd deddf leol bryd hynny yn gorchymyn fod angen i bob plentyn fod yn hyddysg mewn darllen ac ysgrifennu cyn gadael yr ysgol. Byddai'n rhaid hefyd i'r ysgolfeistr gyflwyno

llythyr i unrhyw ddarpar gyflogwr i dystio fod y plentyn wedi cyrraedd safon neilltuol tra roedd yn ei ofal.

Edrychai Robert Jones ymlaen am gael gadael yr ysgol a chychwyn gweithio yn Chwarel y Penrhyn gyda'i dad. Ond pan gyrhaeddodd ei dair-ar-ddeg mlwydd oed, roedd ei dad ar streic. Doedd yr Arglwydd Penrhyn ddim yn fodlon i deulu unrhyw streiciwr gael gwaith yn y chwarel. Y canlyniad oedd i Robert chwilio am waith yn Chwarel Dinorwig, a derbyniodd lythyr

gan y prifathro, John B. Jones yn cadarnhau iddo fynychu'r ysgol yn ol is-ddeddfau Bwrdd Ysgol Llanddeiniolen. Dyma'r llythyr a gyflwynwyd i W.W.Vivian, rheolwr Chwarel Dinorwig, ac a sicrhodd waith i'r bachgen ifanc. Hefyd ym meddiant Owen Jones mae tystysgrif ei dad am fynychu'r ysgol yn 1896, a thystysgrif yn dynodi ei lwyddiant yn arholiad y Tonic Sol-Fa. Dyma'r unig arholiad a safodd mewn unrhyw faes gydol ei oes, ac y mae'n siwr fod hyn yn wir am lawer o'n hynafiaid hefyd.





Gwrhydri Grace Jones, Ebenezer.

Daeth mwy o wybodaeth am hanes yr hen wraig a enillodd dystysgrifau a medalau am achub gwr o dan yn ei chartref. Diolch unwaith eto i Hywyn Williams (am y llun) a Ceri Foulkes (am y wybodaeth). Mae'r llun yn dangos ail dystysgrif, gan y Carnegie Fund, a gyflwynwyd i Grace Jones. Tynnwyd y llun gan Hywyn Williams rai blynnyddoedd yn ol yn yr hen lyfrgell, Deiniolen. Ydi'r dystysgrif hon yn dal yno tybed?

Cyfeiriodd Ceri Foulkes unwaith eto at lyfr Gracie Owen, "Cofio Deiniolen", a'r son ynddo am Grace Goets. Dyna mae'n amlwg sut roedd trigolion Ebenezer yn adnabod Grace Jones, oherwydd iddi hi a'i gwr fod yn cadw'r 'Coach and Horses' yn Rhiwlas am rai blynnyddoedd. Roedd gan y teulu gysylltiadau a thafarnau yn Rhiwlas ac yn Ebenezer.

Roedd John Evan Morris wedi priodi Mary, merch Lewis Owens, crydd o Riwas, a'i deulu wedi bod yn cadw'r 'Coach and Horses' yn y pentref hwnnw. Bu John Evan a Mary yn cadw'r 'Bull' yn Ebenezer. Roedd ganddynt o leiaf ddwy o ferched. Priododd Mary Jane Morris efo William Closs Parry a buont hwythau'n cadw'r 'Goets'. Wedi marw William Closs Parry, ail-briododd Mary Jane efo Richard Roberts, Ty Mawr, Llanddeiniolen, a symud at ei rhieni i gadw'r 'Bull'.

Grace Morris oedd y ferch arall. Priododd hi a Griffith John Jones, a buont hwythau'n cadw'r 'Goets' (dyna pam y galwyd hi'n Grace Goets) cyn symud i Ebenezer i gadw'r 'Wellington'. Ymddeolodd y ddau i fyw i Dregarth. Mae'n bosibl felly, mai ym mynwent y Gelli, Tregarth y claddwyd hwy.

GWAITH COFFAOL LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

O Glwt y Bont i Utica.

Cafwyd mwy o wybodaeth am deulu Humphrey Griffith ers cyhoeddi'r hanes gan John Alan Roberts(JAR) yn rhifyn Mawrth o'r "Eco". Gyda diolch i Ceri Foulkes, Deiniolen a Helen Owen, Penisarwaun am nodiadau a choeden deulu. Ond maent wedi cymhlethu cryn dipyn ar yr hanes gan eu bod yn rhoi gwybodaeth am wahanol ganghennau o'r teulu!

Roedd Jane Ann Griffith yn byw yn Gerlan, Clwt y Bont. Bu farw 20 Medi 1945 yn 62 mlwydd oed. Hi, o bosib, yw'r Jane y sonia JAR amdani yn cael ei geni yn Llanwddyn, Sir Drefaldwyn yn 1884, sef chwaer Humphrey. Yn cyd-fyw yn Gerlan roedd Richard ac Elizabeth Ellen Roberts. O bosib fod Elizabeth yn chwaer arall i Jane a Humphrey.

Sonia JAR hefyd am ddau o wyrion i Thomas Griffith (tad Humphrey) yn byw yng Nghlwt y Bont gyd'r cyfenw Taylor oedd wedi eu geni yn Aberpennar. Roedd gan y teulu hwn gysylltiadau a'r Gerlan ac a Dorlan Goch (yng ngwaelod Allt Sam). Roedd Thomas John Taylor (mab y Gerlan) yn briod efo Sydney Williams ac yn byw yn Dorlan Goch. Rywbryd yn ystod y Rhyfel Mawr symudodd y ddau i Southampton, ond pan alwyd Thomas John i'r fyddin dychwelodd Sydney i Glwt y Bont. Roeddent eisoes wedi colli merch fach o'r enw Freda tra yn Southampton. Clwyfwyd Thomas John yn y Rhyfel Mawr, a bu farw ym mis Chwefror 1919 yn 26 oed. Mae hanes anfon y corff yn ol i Glwt y Bont i'w gael yn llyfr Gracie Owen, "Cofio Deiniolen". Roedd Sydney Taylor yn fodryb i'r awdures.

Yn ol y copi o'r goeden deulu a dderbyniais, ganwyd Humphrey Griffith ar yr 10fed o Awst 1868, a'i wraig, Elizabeth Jane Williams ar y 24ain o Chwefror 1879, yn ferch i Hugh Williams a Mary Ellis. Roedd gan Hugh a Mary dri o blant eraill – dau wedi eu geni yn Llanddeiniolen, ac Ellis (fel ei chwaer Elizabeth) yn Danielsville, Pennsylvania. Un o deulu Perthi, Penisarwaun oedd Hugh Williams.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

**CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202**

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddwyd Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

LLANBERIS

12



Graffiti yn Y Ganolfan

Mae rhai o ieuencid Llanberis wedi bod yn treulio'u gwyliau yn peintio graffiti ar wal y Ganolfan yn Llanberis.

Fel arfer, gweithred anghyfreithlon ydy peintio graffiti ar waliau ond, yn Llanberis, mae criw o bobl ifanc y pentref wedi bod yn treulio'u gwyliau yn peintio graffiti ar wal y tu mewn i'r Ganolfan yn y pentref, gyda chymorth yr artist graffiti Andy Birch a staff o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Fel rhan o gynllun partneriaeth "Caru ein Llyn", sef cynllun i godi ymwybyddiaeth pobl o bwysigrwydd gwella ansawdd dŵr Llyn Padarn, trefnwyd nifer o weithgareddau cymunedol yn ystod y flwyddyn, ac mae peintio'r graffiti ar y wal yn rhan o'r cynllun hwnnw. Dechreuwyd ar y gwaith paratoi rai misoedd yn ôl pan dreuliodd rhai o swyddogion yr Awdurdod amser gydag aelodau o Glwb Ieuencid Llanberis. Bellach gyda'r Wyddfa yn gefndir i Lyn Padarn, mae pâr o elyrch, torgoch, dyfrgi, glas y dorlan a chanŵiwr yn addurno'r wal.

Angharad Harris, Swyddog Addysg Awdurdod y Parc sy'n esbonio'r cefndir:

"Deilliodd y syniad o waith y buom yn ei wneud llynedd gyda disgyblion lleol fel rhan o bartneriaeth Caru Ein Llyn. Yr oedd gwaith graffiti yn dynodi hanes diwylliannol a diwydiannol wedi ei baentio eisoes ar un wal o'r Ganolfan ond y farn yn lleol oedd bod angen graffiti ar wal arall fyddai'n canolbwyntio ar bwysigrwydd Llyn Padarn i'r ardal. Aed ati i gynnal sesiynau trafod gyda'r bobl ifanc cyn i'r artist Andy Birch fynd ati i ddylunio'r lluniau ac yna bu pawb yn cwblhau'r gwaith paentio'r wythnos diwethaf. Mae pawb sydd wedi gweld y wal hyd yma wedi eu cynhyrfu gan y Torgoch sydd yn hawlio'i le yng nghanol y wal, ac yn synnu sut mae celf 'graffiti' trefol yn edrych mor naturiol yma."

Mae ysgrifennydd y Ganolfan, Ken Jones, wedi ei blesio â'r gwaith. Dywedodd,

"Mae'r prosiect gwyh yma yn dod â bywyd y llyn yn fyw mewn ffordd liwgar a chrefftus i brif neuadd y Ganolfan ac wedi gweddwed wal goncrid blaen i gyflwyno hanes bywyd gwyllt a gweithgareddau Llyn Padarn. Hoffwn ddiolch i Barc Cenedlaethol Eryri am gydlynw'r gwaith ac i ieuencid y fro am eu hymroddiad i'r fenter a hefyd i waith gwyh yr artist Andy Birch. Mae Andy Birch hefyd wedi ei wefreiddio ar ôl ei brofiad yn Llanberis.

"Pan wnes i ymuno â'r cynllun yma, wyddwn i ddim am y Llyn na'i bywyd gwyllt. Fel y wal, roedd gen innau gyfnas wag. Dwi wedi dysgu cymaint am yr ardal wrth greu'r gwaith celf yma ac mae brwdfrydedd y bobl ifanc tuag at y Llyn a'r cynllun wedi bod yn rhyfeddol."

Wrth edrych yn ôl dros ei waith, dywedodd aelod o'r Clwb Ieuencid, Kieron Rodgers,

"Buom yn gwneud graffiti ar waliau Ganolfan Llanberis am ddiwylliant a bywyd gwyllt Llyn Padarn, yn arbennig am natur y llyn a'r pysgodyn torgoch prin sydd yn bodoli yno. Mae wedi bod yn llawer iawn o hwyl ac yn ffordd dda o ddysgu am yr ardal." Cymaint fu brwdfrydedd y gymuned dros y gwaith sydd wedi ei wneud, maent bellach wedi comisiynu'r artist Andy Birch i weithio ar roi llun o Frwynddail y Mynydd (Lili'r Wyddfa) ar wal arall yn y Ganolfan.

Gyda diolch i Claudia O'Donnell am y lluniau.

(Mwy i ddilyn yn rhifyn Mehefin.)



Bu plant Cylch Meithrin Llanberis a Nant Peris yn brysyr yn addurno Wyau Pasg a gafodd eu cyfrannu gan Wayne Jones TW Hair Llanberis, er mwyn ei arddangos ar y goeden Pasg yn y siop. Ymwelodd Wayne â'r Cylch i gasglu'r Wyau Pasg a diolch i'r

plant drwy roi wy Pasg siocled yr un iddynt. Roedd y plant wedi mwynhau y profiad yn fawr ac wedi cael llawer o hwyl.

Diolch i TW Hair am ei cefnogaeth barhaus.

Un funud fach ...

'DWT'N MALIO DIM!'

Un o fanteision mawr y rhyngwyd yw ein bod yn taro ar erthygl na fyddem wedi ei gweld pe byddem yn dal i ddarllen un neu ddau o bapurau dyddiol.

Un o anfoneision mawr y rhyngwyd yw ein bod yn taro ar erthygl na fyddem wedi ei gweld pe byddem yn dal i ddarllen un neu ddau o bapurau dyddiol. Gwaetha'r modd.

Dyna ddigwyddodd yr wythnos ddiwethaf gydag erthygl a ysgrifennwyd gan un o golofnwyr papur newydd y Sun a oedd yn trafod y bobl a foddwyd yn nyfroedd Môr y Canoldir wrth geisio dianc o dlodi a pheryglon Gogledd Affrica i ddiogelwch a gobaith yr Eidal a gwledydd Ewrop. Swm a sylwedd (er bod y gair 'sylwedd' yn gwbl anaddas) yr erthygl oedd nad oedd yr awdur yn poeni dim oll am y bobl hyn. O glywed am y bobl a fu farw, ac o weld y cychod a'r cyrff, geiriau croch a chiaidd y colofnydd oedd 'Dwi'n malio dim.' 'No, I don't care.'

Mae'n anodd credu bod unrhyw un yn medru bod mor galon galed, mor ddibris o eraill, ac mor barod i ddatgan nad yw'n gweld unrhyw werth o gwbl i fywydau pobl. Pa ots bod miloedd o bobl wedi boddi wrth ffoi o'u gwledydd eu hunain i ddiogelwch a gobaith posibl yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf yn unig? 'I don't care,' meddai'r wraig hon. Yr unig ateb i'r 'broblem' yn ôl hon yw anfon llongau rhyfel i saethu at y bobl yn y cychod a'u hanfon nôl adref. Pa ryfedd bod 200,000 o bobl wedi arwyddo deiseb o fewn ychydig ddyddiau yn galw ar y papur newydd i gael gwared o'r colofnydd?

Anghofiwch am eiliad yr holl ddadlau a'r gwahanol bolisiau'n ymwneud â mewnfudo i'r gwledydd hyn. Yr hyn a gaed yn yr erthygl hon, a'r hyn a gythruddodd gymaint o bobl a'i darllenodd neu a glywodd amdani, oedd y datganiad digywilydd a didostur y colofnydd nad yw marwolaeth miloedd o bobl o bwys o gwbl iddi. (Er tegwch, mae'n debyg i'r erthygl gael ei llunio cyn iddi glywed am y gwaethaf o'r digwyddiadau eleni pan foddwyd oddeutu 900 o bobl wedi un cwch suddo'r dydd o'r blaen. Ond mae'n debyg hefyd na chafodd hyd yn oed hynny effaith arni, a'i bod er mawr gywilydd wedi glynu at yr hyn a ysgrifennodd.)

Ydi, mae'n anodd credu bod neb mor galon galed. Ac eto, nid yn amhosibl. Oherwydd onid yr hyn a gafwyd yn yr erthygl oedd prawf diamheuol o'r hyn a ddywed y Beibl am y galon ddynol, sydd yn ei hanfod yn ddrwg ac felly'n amddifad o gariad at Dduw ac o dosturi at eraill? Mae pobl yn medru ysgrifennu a dweud a meddwl fel y wraig hon am eu bod - yng ngeiriau'r Beibl - yn bechaduriaid sydd wedi cefnu ar Dduw. A chan mai dyna yw pob un ohonom, gweddiwn am y gras i fod yn wahanol i'r wraig hon, gan wneud popeth a allwn i dosturio wrth eraill a'u caru a'u hymgeleddu, beth bynnag eu hamgylchiadau a'u hanghenion.

JOHN PRITCHARD

Dim Cyngor Bethel a Seion - ar hyn o bryd.

Nos Iau Mawrth 19 y cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Goffa, Bethel i wyntyllu'r syniad o ffurfio Cyngor Cymuned annibynnol ar gyfer ardal Bethel a Seion y cyfeiriwyd ato ar dudalen 3 o rifyn Ebrill o'r Eco.

Roedd tua 15 yn bresennol yn y cyfarfod i glywed y Cynghorydd Sion Jones yn amlinellu ei weledigaeth o dorri i ffwrdd o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen a sefydlu cyngor penodol i Fethel a Seion fyddai yn gallu rhoi ei holl sylw i ofynion a dyheadau ardal Bethel a Seion. Cyfeiriodd at y ffaith mai treth Llanddeiniolen oedd yr isaf yng Ngwynedd os nad yng Nghymru ac y byddai'r cyngor newydd yn gallu codi'r dreth i sicrhau fod arian ar gael i gefnogi cynlluniau penodol ym Methel a Seion.

Roedd Sion yn rhagweld y byddai cynghorau cymuned yn cael cyfrifoldebau ychwanegol yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol ac roedd o'r farn y byddai cyngor penodol i Bethel a Seion yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldebau hynny yn fwy effeithiol na chyngor mawr Llanddeiniolen sydd yn gwasanaethu 7 pentref.

Yn ymateb i gyflwyniad Sion cyfeiriodd Richard Llwyd, Cadeirydd Cyngor Llanddeiniolen y byddai dadgysylltu yn golygu dyblu'r gost gweinyddu ac y byddai'n rhaid i'r cyngor newydd gyllido gweinyddu o safbwynt cyflog a chostau cler, yswiriant ac aelodaeth o gorff proffesiynol ynghyd â'r gost o gynnal llwybrau a chyfrifoldebau eraill fyddai yn golygu gorfod codi'r dreth yn sylweddol i gefnogi cynlluniau newydd.

Daeth y cyfarfod i ben gyda chyhoeddiad y byddai Sion yn cynnal refferendwm ym Methel a Seion i ganfod barn y gymuned ac yn cynnal cyfarfod cyhoeddus arall i ystyried y mater ymhellach.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, cysylltodd yr "Eco" gyda'r Cynghorwyr Sion Jones, Hefin Williams ac Elfed Williams, cynrychiolwyr cymuned Llanddeiniolen ar Gyngor Gwynedd, a chafwyd datganiadau ganddynt ynglŷn â'r syniad o ffurfio Cyngor Cymuned newydd. Roedd yn fwriad gan yr "Eco" i gyhoeddi ymatebion y tri cynghorydd, ond bu datblygiadau pellach erbyn yr wythnos gyntaf yn Ebrill, ac mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen ar nos Fawrth, 7fed o Ebrill, cyhoeddodd y Cynghorydd Sion Jones na fyddai yn mynd a'r mater ymhellach.

Eglurodd iddo gael trafodaethau gyda Leighton Andrews ynglŷn â'r syniad, ond mai strategaeth Llywodraeth y Cynulliad oedd anelu at sefydlu cynghorau cymuned mwy o ran maint; cynghorau a fyddai'n gallu codi treth o tua £200,000. Ar sail y drafodaeth hon cyhoeddodd Sion na fyddai yn symud ymlaen gyda'i fwriad gwreiddiol. Ychwanegodd hefyd y byddai'n cysylltu'n uniongyrchol â Chyngor Llanddeiniolen os byddai'r mater yn cael ei ail godi.

Blodau
Racca
PENISARWAUN

Rhodd o'r Galon
Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Rhif Ffôn
(01286) 870605

RHOSTIO
MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER
POB
ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a

John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Tîm Pêl-droed Clwb Ffermwyr Ieuanc Nant y Betws, Betws Garmon tua 1956-57

Rhes Gefn (o'r chwith)

1 Cledwyn Jones, 1 Rhesdai Gwyrfaï, Betws Garmon

2 Tomi Jones, Tŷ Capel, Rhyd Ddu

3 Emrys Lloyd Hughes, Gwastadfaes, Waunfawr

4 Ian Oliver, 8 Bryn Goleu, Waunfawr (Pen y Clip gynt)

5 Sion Rhys Jones, Penrhos, Waunfawr

6 Harold Peters, Cae Steel, Waunfawr

Rhes Flaen

1 Emyr Evans, 5 Dôl Erddi, Waunfawr

2 Raymond Peters, Cae Steel, Waunfawr

3 Hugh Evans Hughes (Huw Drws-y-Coed Uchaf) Rhyd Ddu

4 Robert Elis Owen (Bob Pant Gwyn) Waunfawr

(Ystrad Uchaf, Betws Garmon gynt)

5 Norman Lyon, 3 Ael-y-Bryn, Waunfawr



Dyma lun a dynnwyd o dîm pêl-droed Clwb Ffermwyr Ieuanc Nant-y-Betws tua 1956/57. Criw o hogiau lleol o'r Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd Ddu oedd rhain a byddent yn cyfarfod, ynghyd ac aelodau eraill, yn rheolaidd ar nos Wener yn y gaeaf. Yr Hen Ysgol 'Salem' Betws Garmon oedd cartref y clwb, ac yno y ffurfiwyd y tîm pêl-droed i chwarae mewn gemau cyfeillgar yn erbyn clybiau Ffermwyr Ieuanc eraill. Mae'n debyg mai ar achlysur y gêm gyntaf a chwaraewyd y tynnwyd y llun yma, a chredir iddo gael ei dynnu gan fy ewythr, sef Gwilym Lloyd Pritchard, Plas Isa, Betws Garmon.

Clwb Ffermwyr Ieuanc Dyffryn Nantlle oedd y gwrthwynebwy, a chwaraewyd y gêm ar gae fferm Caeau Gwynion, sydd gyferbyn â Llyn Cwellyn, rhwng Betws Garmon a Rhyd Ddu. Cofiaf yr achlysur yn dda gan fod y gêm yma fel 'Cyp Ffeinal' i ni hobia bach Waunfawr oedd wedi gwirioni ar bêl-droed, yn enwedig ar adeg pan nad oedd sôn am set deledu yn yr ardal i ddangos gemau. Ni chofiaf y dyddiad yn iawn, ond mi gofiaf weld poster yn ffenestr siop fy nhad (John Awstin Jones), yn hysbysebu'r gêm rhyw wythnos neu ddwy cyn y diwrnod mawr. Ar y poster cyfeiriwyd at hen gymeriad lliwgar yr adeg honno, sef Guto Roberts, Minffordd, Betws Garmon, neu 'Guto'r Hafod' i bawb yn yr ardal, a fyddai'n diddori'r gwylwyr ar hanner amser drwy 'baredio' o amgylch y cae hefo drwm.

Gan fod y gêm yn un gymharol bwysig i'r clwb, rhaid oedd cael sesiwn ymarfer o flaen llaw, felly trefnwyd fod y tîm yn cyfarfod un gyda'r nos i gael 'cicabowt' a chynllunio eu 'tic tacs' chwedl Wali Tomos. Roedd yr ymarfer y gyda'r nos braf honno ar gae fferm Ystrad Isaf wedi mynd yn gymharol dda, hynny ydi tan i Norman Lyon (asgellwr chwith y tîm) roi cic nerthol i'r bêl dros glawdd y lôn. Yn anffodus i Norman daeth cerbyd bychan, un â thair olwyn ddim yn annhebyg i'r un a welir ar y rhaglen gomedi 'Only Fools and Horses' rownd y tro ar yr union adeg pan oedd y bêl yn clirio weiren y clawdd. Clec fel gwn 'twelf bôr' a glywyd pan drawodd y bêl ochr y cerbyd a'r 'thri whilar' druan yn siglo'n feddw o ochr i ochr am y clawdd yr ochr arall i'r ffordd. Dyna mae'n debyg oedd diwedd ar yr ymarfer y noson honno.

Ar ddiwrnod y gêm fawr daeth criw o gefnogwyr brwd at ei gilydd o flaen Post y Waun, lle cludwyd hwy ac aelodau'r tîm wedyn i Fetws Garmon a Chaeau Gwynion. Cerbydau fel Morris Oxford Huw Drws-y-Coed (sentar fforward y tîm) neu fan fara Morris Mil (BJC 733) fy nhad, gyda Sion fy mrawd (cefnwr chwith) fel y dreifar, oedd rhai o'r taccis. Crafangio i gefn fan Ford Transit ddu (DCC 135) Emrys Gwastadfaes (amddiffynnwr canol) ddaru fy hen ffrind Aled Taylor (Cochyn), Rheon, fy mrawd a minnau, a gwasgu i ganol criw o gefnogwyr swnllyd eraill oedd ar y ffordd i faes y gad ar lan Llyn Cwellyn.

Polion pren o fferm gyfagos oedd y postiau gôl, a chortyn neu linynt bel yn ffurfio'r traws, heb fath o rwyd o gwbl. Wedi iddynt newid wrth fôn y clawdd, daeth y ddau dîm i'r maes a dechreuwyd y frwydr. Chwarae digon araf oedd ar y dechrau, gyda'r ddau dîm yn gyndyn o ymosod ar ei gilydd. Ond mi newidiodd pethau wedi rhyw hanner awr, pan sgoriwyd un o'r goliau rhyfedda. Wedi

sgarmes yng nghwrt cosbi Dyffryn Nantlle, torrodd y bêl yn rhydd i un o flaenwyr Nant- -Betws a trawodd hwnnw hi'n galed hefo'i droed yn erbyn un o'r amddiffynwyr. Disgynnodd y bêl yn daclus i Tomi Tŷ Capel oedd, wedi tacl galed, ar ei eistedd ar linell y gôl. Pen-glin Tomi, oedd yn amlwg yn camsefyll, lywiodd y bêl fodfeddi dros y lein i roi y tîm cartre ar y blaen. Ond newidiwyd pethau ychydig wedyn pan ddaeth yr ymwelwyr yn ôl i'r gêm ac unioni'r sgôr i wneud pethau'n gyfartal ar yr egwyl.

Fel y crybwyllais i, roedd yr hen gymeriad Guto'r Hafod yn ymddangos ar hanner amser i 'baredio' hefo drwm. Hen ddrwm mawr crwn oedd hwn, yn pwyso ar ei fol fel olwyn 'stim rolar', gyda rhaff denau yn ei ddal yn ôl o amgylch ei wegil. Hen gadachau wedi eu rowlio fel peli am ddau bric oedd y 'drymstics' a chap fflat tylllog ar ben y tabyrddwr wedi ei dynnu i lawr un ochr ei wyneb hefo'r pig yn gorchuddio'r glust. Dechreuwyd yr orymdaith o gefn un o'r goliau, a Guto bron o'r golwg yn torsythu'n rhodresgar tu ôl i'r drwm. Roedd y 'Bwm! Bwm! Bwm!' i'w glywed yn atseinio'n uchel dros Castell Cidwm a Chwm Bychan ac ymhell i lawr y dyffryn wrth hi Guto golbio'r tabwrdd yn ddidrugaredd. Ond yn sydyn, wedi ychydig lathenni o'r orymdaith, bu distawrwydd. Yn ei frwdfrydedd a'i eiddgarwch i wneud argraff ar y cefnogwyr, roedd yr hen frawd wedi colli arno'n lân. Taro'n rhy galed ar y drwm fu'r hanes a gwnaethpwyd twll maint powlen siwgr yn ei hochr. Dyna beth oedd Amen y 'parêd' hwnnw. Clywais wedyn fod y drwm yn un hynod frau ac wedi bod yn gorwedd mewn hen feudy tywyll heb weld golau dydd am flynyddoedd. Digwyddiad digri arall oedd gweld bws gwyn (Whiteway) wedi aros wrth glawdd y lôn, a'r teithwyr yn y cefn yn rhythu drwy'r ffenestri a Robin Arthur, y dreifar, ar stepen y drws yn groch ei gefnogaeth i'r hogiau, cyn ailgychwyn wedyn ar y siwrnai i Feddgelert.

Dechreuwyd yr ail hanner hefo llawer mwy o gyffro, ond prin iawn oedd y cyfleoedd hefo'r ddau dîm yn amddiffyn yn galed. Felly y bu am y rhan fwyaf o'r amser, hyd at ryw chwarter awr cyn y diwedd pan loriwyd un o flaenwyr Nant-y-Betws yng nghwrt cosbi Dyffryn Nantlle. Gyda'r cefnogwyr i gyd yn gweiddi 'PENALTI' chwibanodd y dyfarnwr (Griff Roberts, Clynnog) am gic o'r smotyn. Yr oedd nerfau pawb ar bigau wrth i Huw Drws-y-Coed (captain y tîm) osod y bêl yn ofalus ar y llawr. Ond rhyddhad!! ergydiodd Huw y bêl yn galed i gornel uchaf y gôl, allan o gyrraedd y golwr, nes ei bod yn glanio yng nghanol twmpathau tyrchod daear y cae gyferbyn.

GORFOLEDD!!! NANT-Y-BETWS 2 DYFFRYN NANTLLE 1. Ychydig wedyn daeth chwiban Griff Roberts â'r gêm i ben, gyda'r cefnogwyr yn heidio ar y cae i gyfarch eu harwyr. Cyflwynwyd tlws i'r buddugwyr ar y diwedd. Na, nid cwpan arian mohoni, ond hen botyn pridd brown ei liw. Ond i Cochyn, Rheon a minnau, yr FA Cup oedd y priddist erchyll yma. Tri o hogiau bach hapus ymysg criw o ddathlwyr llawen eraill oedd yng nghefn fan Emrys Gwastadfaes yn mynd adref i'r Waun yn hwyrach y prynhawn hwnnw. Trefnwyd ail gêm ychydig wedyn, oddi cartref y tro yma, ond stori arall yw honno.

Gwilym Morris Jones, Bontnewydd (Waunfawr gynt)

Ysgol Brynrefail

Veritate - Scientia - Labore

EISTEDDFOD RHANBARTH ERYRI

DYDD GWENER 20fed MAWRTH 2015

Gobeithio bod ganddoch chi digon o 'betrol' yn y car oherwydd mae'r daith i Gaerffili, diwedd mis Mai, yn un hir a throellog. Ond i ddisgyblion Brynrefail fe ddechreuodd y siwrne ar ddydd Gwener, 20fed Mawrth, pan gynhaliwyd

Eisteddfod Rhanbarth Eryri yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Bu cystadlu brwdfrydig dros ystod o gystadlaethau ac ar ddiwedd y dydd bu llwyddiant aruthrol fel a ganlyn - :

Dawns Werin Unigol i Ferched BI 9

1af - Telaid Glain Jones

Unawd Piano BI 10 a dan 19

1af - Math Roberts

Cerddorfa/Band dan 25

1af - Band Pres Ysgol

Brynrefail

Unawd Chwythbrennau BI 10

a dan 19

2il - Huw Williams

Unawd Merched BI 10 a dan 19

2il - Megan Crisp

Unawd 19-25

2il - Rhodri Llyn Brookes

Unawd bechgyn BI 10 a dan 19

2il - Gwion Jones

Deuawd BI 10 a dan 19

1af - Gwern Llyn a Rhidian

Llefaru Unigol BI 10 a dan 19

3ydd - Gwion Jones

Ymgom BI 10 a dan 19

1af - Parti Brynrefail

Unawd Allan o Sioe Gerdd BI

10 a dan 19

1af - Megan Crisp



Math Emyr

Unawd Piano BI 10 a dan 19



Telaid Glain Jones

Dawns Werin Unigol i
Ferched BI 9



Megan Crisp

Unawd allan o Sioe Gerdd BI
10 a dan 19



Gafael Llaw

GAFael LLAW



Gafael Llaw



Mae grwp o bobl leol yn ardal Caernarfon wedi sefydlu elusen newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o ganser. Mae "Gafael Llaw" elusen (Holding Hands) yn anelu



i gynnal amrywiol weithgareddau i godi arian yn y frwydr yn erbyn canser.

Mae'r elusen yn cefnogi'r Ward Dewi yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl a'r elusen canser, Clic Sargent

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Melody



Ar ôl cyfnod hir o ddisgwyl a gwyllo adeilad yn cael ei adeiladu o'r newydd fe gafwyd agoriad swyddogol y bloc Cerdd newydd, sef Melody, ar y 19eg Mawrth 2015. Cafwyd llw o westeion i ddathlu a gweld Y Cyngorydd Dewi Owen, Cadeirydd Cyngor Gwynedd a Mr Dafydd Roberts, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail, yn nodi'r digwyddiad trwy ddadorchuddio plac yng nghyntedd yr adeilad newydd. Fe ddathlodd y disgyblion trwy gyflwyno blas ar lwyddiant diweddar yr ysgol trwy eitemau gan Gôr Disgyblion 7, 8 a 9 sydd eisoes wedi ennill eu lle ar lwyfan eisteddfod

Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ar ddiwedd mis Mai. Cafwyd eitemau hefyd gan Fand Pres Ysgol Brynrefail, hwythau hefyd wedi ennill eu lle ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili. Yn fwy na dim fe welwyd gwerth y cyfleusterau newydd trwy gyflwyniad y Band Pres oherwydd bod un ystafell o fewn y bloc yn ddigon mawr i'w cartrefu yn gyfforddus. Ar hyd y blynyddoedd y mae staff Ysgol Brynrefail wedi cyflawni gwyrthiau cerddorol er yn defnyddio cyfleusterau anhwylyd. O'r diwedd cânt gyfleusterau sydd yn deilwng o'u llwyddiannau.

CÂNYMGYRCH HAWLI FYW
Gwlad y gân yn uno dros achos pwysig...



Bydd cân yr ymgyrch Hawl i Fyw yn cael ei rhyddhau yn swyddogol dydd Iau, 16 Ebrill 2015, a bydd ar gael i lawr lwytho ar iTunes. Bydd dangosiad cyntaf o'r gân i'w gweld ar rhaglen Heno ar S4C ar nos Fercher, 15 Ebrill.

Yn dilyn cefnogaeth o bob rhan o Gymru, daeth rhai o'r enwau mwyaf yng ngherddoriaeth Cymru at ei gilydd i ail recordio'r glasur Hawl i Fyw gan Dafydd Iwan yn Stiwdios Recordio Sain yn Llandwrog ger Caernarfon yr wythnos diwethaf.

Ochr yn ochr â Dafydd Iwan ei hun mae artistiaid adnabyddus fel Rhys Meirion, Elin Fflur, Caryl Parry Jones, Yws Gwynedd, Gwyneth Glyn, Gwilym Bowen Rhys, Meinir Gwilym, Iwan Cowbois Rhos Botwnnog, Lisa Jên, John ac Alun, Trio, Alys Williams, Arfon Wyn, Sera Louise a Dylan a Neil, Casi Wyn, Côr y Brythoniaid a Hogia'r Wyddfa yn canu. A'r cerddorion ar y trac oedd Charli Britton, Hefin Elis, Pwyll ap Sion a Wyn Pearson.

Mae #HawliFyw yn ymgyrch gadarnhaol sy'n galw am gefnogaeth drawsbleidiol i newid polisi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar gyffuriau arbenigol a thriniaethau ar gyfer canser ac afiechydon prin eraill yng Nghymru.

Mae'r Ymgyrch #HawliFyw wedi cael ei ysbrydoli gan stori Irfon Williams. Mae'r tad 44 oed o Fangor, Gwynedd ar hyn o bryd yn cael triniaeth ar gyfer canser y coluddyn, ond mae wedi cael gwrthod mynediad at gyffuriau a all ymestyn ac o bosib achub ei fywyd yng Nghymru.

Mae'r recordiad wedi bod yn bosibl gyda chymorth Mari Lloyd Pritchard, Elin Fflur, a'r tîm yn Recordiau Sain, a cynhyrchwyd fideo o'r gân gan gwmni Tinopolis.

Dywedodd Dyfed Jones ar ran Hawlifyw



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

"Fel ymgyrch, rydym yn hynod ddiolchgar bod Dafydd Iwan wedi cytuno i adael i ni ail-recordio Hawl Fyw i gefnogi ein hymgyrch. Bydd y gân yn ein helpu i ledaenu neges Hawlifyw dros Gymru gyfan.

"Mae geiriau'r gân yn addas iawn gan eu bod yn adlewyrchu egwyddorion yr ymgyrch sef cydraddoldeb a'r egwyddor y dylai unrhyw un, ym mha le bynnag y maent yn byw yn y DU yn haeddu'r un siawns wrth frwydro yn erbyn canser ac afiechydon eraill."

Ychwanegodd un o'r artistiaid sy'n canu ar y recordiad, sef Elin Fflur, oedd hefyd yn rhan o'r tîm wnaeth drefnu'r recordiad; "Mae hi'n braf iawn ein bod ni fel cantorion a cherddorion yn gallu cyfrannu mewn ffordd fach tuag at yr ymgyrch hon, ac rydw i'n ddiolchgar iawn i'r holl gantorion am gymryd rhan."

Mae'r Ymgyrch wedi tyfu'n aruthrol dros yr ychydig wythnosau diwethaf gyda dros 23,000 o aelodau o'r grŵp Facebook, gyda gwleidyddion, enwogion a sêr y byd

chwaraeon - gan gynnwys Tîm Rygbi Cymru - yn dangos eu cefnogaeth at yr ymgyrch."

Dywedodd Dafydd Iwan: "Rwy'n ei gweld hi yn fraint fod fy nghân wedi ei dewis i sefyll dros achos mor fawr. Wedi cyfarfod Irfon, mae ei urddas tawel a diymhongar wrth ymladd ei afiechyd yn wers i bawb ohonom. Os yw'r farn feddygol yn gryf, ni ddylai dim rwystro claf rhag cael y driniaeth sydd ei angen arno."

Mae fersiwn Cymraeg a Saesneg wedi ei recordio er mwyn lledaenu neges yr ymgyrch mor eang a phosib. Bydd yr holl elw'r recordiad hwn yn mynd at ymgyrch #TimIrfon a'r elusen Awyr Las y GIC Gogledd Cymru.

Am wybodaeth bellach ar yr ymgyrch, ymwelwch â'n gwefan www.hawlifyw.co.uk neu ein tudalen Facebook.

Ymgyrch 'Hawl i Fyw'.

Mae'r ymgyrch #HawliFyw wedi ei hysbrydoli gan stori ddirdynnol Irfon Williams sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth am Ganser yn y Coluddyn, ond gwrthodwyd iddo gael cyffuriau i ymestyn ei fywyd a fedrai arwain at driniaethau achub bywyd.

Yn anffodus, nid Irfon yw'r unig un sydd yn wynebu'r sefyllfa druenus hon, ac mae'r ymgyrch HawliFyw wedi ei sefydlu er mwyn tynnu sylw at yr anghyfiawnder enbyd sydd yn bodoli yn y system iechyd Gymreig yn bresennol.

Fel egwyddor sylfaenol, rydym yn gryf o'r farn na ellir rhoi pris ar fywyd a bod bywyd pob Cymro a Chymraes yn gyfartal ag unrhyw un arall.

Nod ag Amcanion

Mae #HawliFyw yn ymgyrch bositif sy'n galw am gefnogaeth traws-bleidiol i newid polisi Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bobl Cymru i gael mynediad at gyffuriau a thriniaethau arbenigol ar gyfer canser ynghyd ag afiechydon prin eraill ble fo achos clinigol clir wedi ei brofi.

Yn gryno mae'r Ymgyrch #HawliFyw gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

1. Sicrhau cydraddoldeb a chysondeb yn y broses o ymgeisio am fynediad at gyffuriau a thriniaethau arbenigol drwy Gymru gyfan, gan ddod a'r broses IPFR ynghyd â'r loteri cod post i ben;
2. Diddymu'r maen prawf diffygiol 'Eithriadedd' fel modd o benderfynu pa gleifion sydd yn deilwng i gael mynediad at gyffuriau a thriniaethau arbenigol;
3. Sefydlu cronfa wedi ei neilltuo ar gyfer ariannu cyffuriau a thriniaethau newydd i gleifion ar lefel genedlaethol.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen Cyfarfu'r aelodau ar Ebrill 8fed. Derbyniwyd 6 cais am gymorth, a dyfarnwyd cyfraniadau fel a ganlyn:

Ysgol Sul Undebol Ebeneser - £150

Ysgol Feithrin - £550

Clwb Snwcer - £300

Merched y Wawr - £200

Seindorf - £500

Côr Cynfi - £100

Yn ogystal â'r uchod, penderfynwyd rhoi £200 tuag at daith Ysgol Gwaun Gynfi i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili eleni.

Clwb Pel-droed Ieuenctid Deiniolen Hoffai'r clwb ddiolch unwaith eto am rodd ariannol hael iawn criw bingo Tŷ Elidir, mae o fudd mawr i gynnal y clwb. Diolch o galon gan y plant i gyd.

Diolch Dymuna Mona Parry, 13 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a

chymdogion am y cardiau, arian a blodau a dderbyniodd wedi triniaeth yn yr ysbyty.

Dymuna Margaret, Ernie a Jennifer, teulu Mair Parry, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Mair, chwaer, chwaer yng nghyfraith a ffrind annwyl. Diolch i'r gofalwyr cartref, meddygon a nyrsys meddygfa Llanberis a hefyd staff Ysbyty Gwynedd a Glan Clwyd. Diolch arbennig i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth ac i Gwynfor Jones, E.W. Pritchard Llanberis, am eu trefniant gofalus. Diolch am y rhoddion hael, fe drosglwyddwyd £950 i Feddygfa Llanberis.

Cymanfa Cylch Deiniolen a Chwm y Glo 2015 Cynhelir y Gymanfa eleni b'nawn Sul, Medi'r 20fed am 2 o'r gloch yn Neuadd Gymuned, Penisarwaun.

Cydymdeimlo Estynnir ein cydymdeimlad at deulu'r Parch John Pritchard yn dilyn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl yn ddiweddar.

Estynnir hefyd bob cydymdeimlad at deulu'r diweddar John Owen, neu John Bach, fel yr adnabuwyd o. Er iddo symud i fyw i Benisarwaen yn ddiweddar, fe fu'n byw yn Neiniolen am nifer fawr o flynyddoedd ac yn gymeriad annwyl iawn.



Cyflwynwyd rhodd hael o £500 gan Fanc Barclays i Grŵp Dyfodol Deiniolen.



Hywel

Williams

Llais Cryf Lleol
i Arfon

Etholiad Cyffredinol 7 Mai 2015



Hyrwyddwyd gan Llŷr ab Alwyn, 3 Bythynnod Dinas, Dinas, Caernarfon, Gwynedd, LL55 5UA ar ran Hywel Williams, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE.

Dawnswyr lleol yn diddori



Cafwyd gwledd o ddawnsio yn Y Galeri, Caernarfon ar nos Sadwrn, 18fed o Ebrill gan enethod Angylion Kelly. Mae'r criw yn cyfarfod yn rheolaidd ym Methel, ond daw'r genethod o bron pob pentref o fewn y fro yno i ymarfer, a'r oedran yn amrywio o bedair i ddeunaw oed.

Yn y cyngerdd perfformwyd nifer o ddawnsfeydd amrywiol gan gant a deuddeg o enethod, ac yr oedd canmoliaeth uchel i safon y ddawnsio. Ar ddiwedd y noson diolchwyd yn arbennig i Kelly am ei gwaith caled yn hyfforddi'r holl enethod, ac am ei gofal ohonynt.



IAU 7 MAI 1.30yp
EGLWYS
LLANDDEINIOLEN: YR
YMCHWIL DIWEDDARAF
(½ milltir)
CYCHWYN: GORS BACH,
LLANDDEINIOLEN
HAWDD IAWN. DEWCH I
ANGHOFIO'R ETHOLIAD!
SUL 17 MAI 2.00yp
HANESION TALYBONT A
COCHWILLAN (4 milltir)
CYCHWYN: CAPEL
BETHLEHEM, CAE GWIGIN,
TALYBONT, BANGOR
CYMHEDROL GYDA
LLWYBRAU CYHOEDDUS.
SGIDIAU CERDDED.
IAU 21 MAI 6.30yh
FELINHELI: TAITH
GERDDED A SWPER (1½
milltir)

YN Y FELIN SGWRSIO, Y
FELINHELI.
ENWAU I MYFANWY 07767
210825
GWENER 22 MAI 10.30 yb a
1.30 yp
LLANRUG: CERDDED YR
HETAR (1 milltir)
CYCHWYN: NEUADD
GOFFA, LLANRUG
HAWDD IAWN.
LLUN 26 MAI 10.00yb
CYLCHDAITH LLYN
PADARN A CLEGYR (6
milltir)
CYCHWYN: CAFFI MENTER
FACHWEN, CWM Y GLO
ANNODD A BRYNIOG
O'R CYCHWYN. SGIDIAU
CERDDED.



WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon.
Ffôn: (01286) 650570



Priodasau

Dydd Sadwrn, Mawrth 21ain, yn Eglwys Betws Garmon, gyda'r Rheithor, y Parchedig R.F. Donaldson yn gweinyddu, priodwyd Geraint Rees a Iona Emlyn. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iddynt yn eu bywyd priodasol.
Dydd Sadwrn, Ebrill 4ydd ym mhentref Nant Gwrtheyrn, priodwyd Aled Griffith, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd a Gwennan Humphreys, Pant Bryn Gwyn, Tan-y-coed. Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau am bob hapusrwydd iddynt. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

Ffrindiau Ysgol Gynradd Wythnos Ffair Haf

Helfa Drysor (car) nos Lun, Mehefin 8fed am 6 o'r gloch.

Bingo nos Fawrth, Mehefin 9fed.

Noson Ffilm, nos Fercher, Mehefin 10fed.

Mabolgampau'r Ysgol nos Iau, Mehefin 11eg.

Ffair Haf – dydd Sadwrn, Mehefin 13eg.

Bydd yr Orymdaith yn cychwyn o Barc Nant y Glyn am 1.00 o'r gloch (Dibynnol ar y tywydd). Cystadleuaeth gwisgo i fyny, stondinau, castell neidio, wal ddringo, raffl a llawer mwy.

Croeso cynnes i bawb

Band Llanrug Cynhelir noson Bingo yn yr Ysgol Gynradd nos Wener, Mai 15fed, drysau ar agor am 6.30 ac i gychwyn am 7 o'r gloch.

Pris mynediad yw £1. Croeso cynnes i bawb.

Brysiwch Wella Braf yw clywed fod Mr Martin Fairhaven adre ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty.

Rydym yn falch iawn o glywed fod Dafydd Owen, Crawia, wedi gwella hefyd ac adref o'r ysbyty.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at unrhyw un sydd ddim yn dda.

Cydymdeimlo

Mae'n anodd credu ein bod yn cydymdeimlo ag Ellen Jones, 4 Hafan Elan, yn ei phroffedigaeth o golli ei chwaer,

Gertie Kirkpatrick, yn y rhifyn diwethaf ac iddi hithau farw ei hun mewn llai na mis! Cydymdeimlwn yn arw â'i theulu a'i ffrindiau oll yn Hafan Elan a'r pentre.

Gweddwr Cledwyn Jones oedd Ellen ac wedi byw yn Hafan Elan am flynyddoedd lawer. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Ar Ebrill 6ed bu farw Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan, yn dawel ar ôl gwaeldd byr. Roedd yn berson mor boblogaidd yn y pentre, Anti Katie i'r plant yn yr ysgol lle y bu yn gofalu amdanynt am flynyddoedd. Yn 93 mlwydd oedd, roedd mor llawn bywyd, byth yn cwyno a gwên ar ei hwyneb bob amser. Roedd wedi mwynhau byw yn Hafan Elan lle roedd yn gofalu am bawb arall yno, cadw llygad ar ei chymdogion i gyd! Mi fydd colled enfawr ar ei hôl.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Meirion a Gwawr, ei phlant, Barbara a John, merch a mab yng nghyfraith, Laura, Caroline a Ffion, ei hwyresau, Mia, Lili a Bobi, ei gor-wyresau a gor-wyr. Hefyd ei brawd Gwynfor, Gwyn Sam a Twm, brodyr yng nghyfraith, a'u teuluoedd i gyd. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa lle bu nifer yn talu y deyrnged olaf iddi ac er cof am ei mab Bryn, oedd mor annwyl ganddi. Bydd colled fawr ar eich ôl, Katie.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Dennis Pritchard, Fferm Afon Rhos, yn ei broffedigaeth yn colli ei dad o Rosgadfan yn ddiweddar. Cofion atoch i gyd fel teulu.

Babi

Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Leah a Gethin, 21 Rhos Rug, ar enedigaeth eu mab bach, Efan Owen. Mae taid a nain, Melfyn a Sioned, wedi gwirioni a hefyd hen nain, Hefina Jones, 8 Rhos Rug, a hen daid, Alan Vincent, 4 Rhos Rug. Llongyfarchiadau i taid a nain Llanberis, sef Gaerwen a Chris Owen, a hen daid a nain Caergeiliog, sef Arthur ac Eira. Digon o bobol i warchod!

Dymuna'r ddau ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt ac am yr anrhegion a'r cardiau. Pob dymuniad da ichi.

Capel y Rhos

Braf oedd gweld Mr O. Stanley Roberts, Hafod Wen, Glanffynnon, yn ôl gyda ni yn dilyn y godwm a gafodd yn ddiweddar. Mae'r fraich wedi gwella erbyn hyn ac mae'n

gallu gyrru'r car unwaith eto.

Dymunwn yn dda i Mr Geraint Parry, Brodawel, sydd wedi cael clun newydd yn Ysbyty Gobowen. Deallwn ei fod yn gwella'n foddhaol iawn.

Bedydd

Yn ystod yr oedfa bore Sul, Ebrill 19eg, gyda'r gweinidog y Parch. Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu bedyddiwyd Ena Glwys, merch fach Rachel ac Iwan Griffith. Roedd yn braf cael croesawu nifer o aelodau teulu a ffrindiau i'r gwasanaeth. Dymunwn pob bendith ar y teulu bach.

Diolch. Dymuna Dora Roberts, Min y Parc, Tan y Coed, ddiolch i deulu a chyfeillion am yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

DIOLCH

Hoffai Eco'r Wyddfa diolch o galon i bedwar gwerthwr a fu'n rhannu'r Eco am flynyddoedd lawer, ond sydd nawr am gymeryd seibiant haeddiannol.

Pob hwyl i Gwenda Roberts, Lleifior, oedd yn rhannu'r Eco yn rhan isaf Ffordd yr Orsaf.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Martin, Fairhaven, a oedd yn gwerthu yn ardal Pant Afon.

Yn olaf, diolch i Jim a Margaret Jones, Afon Rhos, a fu'n rhannu yn ardal Glan Ffynnon

Oedfaon mis Mai

Mai 3 -	Y Gweinidog Parch. Marcus Wyn Robinson Gweinyddir y Cymun
Mai 10 -	Y Parch. Gwyndaf Jones
Mai 17 -	Y Gweinidog
Mai 24 -	(Penticost) y Parch. Ddr. Elwyn Richards
Mai 31 -	Ms. Karen Owen

Blodau Racca
PENISARWAUN

*Rhodd o'r Galon
Yw Blodau*

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Rhif Ffôn
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Merched y Wawr

Nos Fawrth, Ebrill 14, am 7.30 estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Menna Williams, a chychwynnwyd y noson gyda Chên y Mudiad. Dymunwyd pen-blwydd hapus arbennig i Pat a dymunwyd pob bendith i Gwenan ac Arwel (merch Nan a Siôn) ar eu priodas. Anfonir cofion annwyl at Margaret a'r aelodau sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Y mae archeb nwyddau 2015 ar gael yn awr, Cardiau Nadolig, Dyddiadur 2016, Cardiau cyfarch 'Anthem Merched y Wawr' a Napcynnau Merched y Wawr. Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol i fynd gyda'r Urdd i Batagonia gan Nia Haf, sy'n ddisgybl yn y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail. Bydd y daith yn gyfle i wirfoddoli mewn ysgolion ym Mhatagonia a phrofi defnydd yr iaith Gymraeg mewn cymunedau ar ben arall y byd. Er mwyn bod yn rhan o'r profiad arbennig hwn cytunwyd i gyfrannu £50 i Nia gan ddymuno pob bendith iddi ar y daith.

Y mae cais am wirfoddolwyr ar stondin Y Galon yn Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau, Awst 1-6. Dyma elusen mudiad Merched y Wawr eleni 'Brwydro Dros Bob Curiad Calon'. Gellir cysylltu ar 01554 891200 am fanylion pellach.

Gwrgwaddynosoedd Hywel R. Roberts, Uwch Reolwr Gwarchodfeydd Gogledd Eryri. Cafwyd orig hynod ddifyr gyda sleidiau a sgwrs addysgol am y diben i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal a'r Wyddfa fel ail gartref i Hywel Roberts, un sydd wedi gweld cryn dipyn o newidiadau. Cwm Idwal oedd y lle cyntaf yng Nghymru i fod yn warchodfa natur genedlaethol yn ôl yn 1954. Gwarchodfa ar gyfer y cyfoeth o nodweddion naturiol fel ffurfiannau daearyddol a

geomorffolegol, y planhigion prin a'r gymuned o blanhigion mynyddig unigryw. Diddorol clywed fod arbenigwyr enwog y byd fel Adam Sedgwick, A.C. Ramsay a Charles Darwin wedi ymweld â Chwm Idwal i ddarganfod sut y crewyd y ddaear.

Yn 1990, gydag Eryri yn cael ei dynodi'n ardal gadwraeth arbennig drwy ddeddfwriaeth, cafwyd cyfle i brynu hawliau pori er mwyn gwella cyflwr cymunedau a rhywogaethau, yn enwedig y gymuned Arctig-Alpaidd, cymuned sydd dan fygythiad oherwydd effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yma gwelir y saxifrage alpaidd, Lili'r Wyddfa ac eraill. Mae gobaith i atal pori yn y Cwm yn helpu i ledaenu'r poblogaethau o blanhigion penodol i dyfu ar y siliau creigiog a'r clogwyni uchel. Y mae effaith y geifr gwyllt wedi bod yn broblem fawr hefyd a rhaid ystyried eu rheoli. Mae rheoli Cwm Idwal yn sicr wedi bod, ac yn bod, yn anrhydedd fawr i Hywel Roberts a diolchir iddo am rannu ei doreth o wybodaeth a'i brofiadau â ni. Diolchwyd i Hywel am noson tu hwnt o ddifyr ac am gynnal ein diddordeb am Gwm sy'n agos iawn at galonau pawb ohonom. Diolchir i Hywel hefyd am gyfrannu ei rodd ariannol tuag at Gymdeithas y Deillion, er cof am ffrind annwyl iddo, Arthur Rowlands. Ategodd Margaret Parry ei diolch hithau iddo am ei gyfraniad i'r Gymdeithas. Dymunir atgoffa pawb am y casgliad o ategolion tuag at Ymchwil y Galon. Diolch i Margaret, Meirwen, Anna Nan am ofalu am y baned. Enillydd y raffl oedd Menna. Pob hwyl i'r rhai fydd yn mynd i Wyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars ddydd Sadwrn, Mai 9fed. Mae 12fed cynhelir Cyfarfod Blynyddol y gangen, gyda chacen a chlonc i ddilyn. Erfynnir ar i bawb ddod i'r cyfarfod hwnnw er mwyn i n gael llun o'r gangen yn 'Dathlu'r Deugain' ar gyfer Y Wawr.

Tacluso Llanrug



'Roedd nifer o bentrefwyr Llanrug wedi'i ffeiddio o weld cymaint o 'sbwriel o gwmpas y pentref ac yn dilyn trafodaeth gyda Jonathan Neale, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, daeth nifer o wirfoddolwyr ynghyd i gasglu 'sbwriel oddi-ar lwybrau'r pentref ar fore Llun 13ain Ebrill. Casglwyd tua ugain o fagiau o fewn rhyw awr.

Siomedig iawn oedd gweld fod gymaint o bapur, bagiau a photeli yn cael eu gadael ond 'roedd gweld fod perchnogion cwn yn gadael bagiau gyda baw eu cwn ynddynt ar ochr y ffyrdd, mewn waliau ac ar y coed yn peri syndod i bawb. Bydd rhaid delio gyda'r broblem yma.

Mae'r ymateb gan drigolion Llanrug wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda nifer wedi rhoi eu henwau ymlaen i wirfoddoli yn y dyfodol.

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn **07748692100 • (01286) 660254**



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Parhad LLANRUG



Ysgol Llanrug



Yn ystod tymor y Gwanwyn bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn astudio'r thema 'Ynni'. Fel rhan o'r gwaith yma cawsant ymweld â Mynydd Gwefru er mwyn dysgu am y modd y mae ynni yn cael ei gynhyrchu yno.

Daeth Mr Dafydd Whiteside draw i'r ysgol i drafod Llanrug ddoe a heddiw gyda disgyblion blwyddyn 1 a 2. Roedd pawb wrth eu bodd yn gweld hen luniau o'r pentref ac rydym yn diolch yn fawr iawn i Dafydd am ddod draw i'r ysgol atom.

Daeth Martin Thomas o gwmni 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol i berfformio sioe am gymro yn ymfudo i Batagonia. Cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 3, 4, 5 a 6 bleser mawr o wyllo'r sioe arbennig.

Llongyfarchiadau gwresog i Tomi Llywelyn. Mae wedi cael ei ddewis i chwarae rhan Gavroche yn sioe Les Miserables yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Llongyfarchiadau mawr i Caryl Davies a Ffion Jones am gwblhau eu cwrs 'Cam Wrth Gam' yn ddiweddar. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith yn adran y Cyfnod Sylfaen ac yn dymuno'n dda i'r ddwy i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i aelodau tîm rygbi blwyddyn 5 a 6 a fu'n cystadlu'n nghystadleuaeth rygbi'r urdd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Cafwyd cystadleuaeth lwyddiannus gyda'r tîm yn cyrraedd y rownd gyn-derfynol ac yn gorffen yn drydydd.

Cafodd blwyddyn 2 gyfle i ymweld â Tesco Caernarfon fel rhan o'r cynllun 'O'r Fferm I'r Fforc'. Roedd yn gyfle da iddynt weld sut mae'r bwyd yn cyrraedd eu bwrdd bwyd. Cawsant groeso arbennig gan Anti Cheryl a Gavin ac roedd pawb wedi gwirioni pan gawsant ddewis llysiau ar gyfer coginio cawl. Cawl blasus iawn ym marn pawb.

Roedd yr haul yn gwenu ar ddisgyblion blwyddyn 5 pan gawsant fynd i ganwio ar llyn Padarn. Profiad gwerth chweil iddynt oll.

Mae plant y dosbarth derbyn yn astudio'r thema 'Pethau Bychain' ar y funud. Fel rhan o'u gwaith daeth Enfys Jones draw i'r ysgol i ddangos crwbach bach iddynt. Roedd pawb wedi gwirioni ac rydym yn diolch yn fawr iawn iddi am ddod.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

KEVIN DAVIES

Plastrwr Profiadol

Pob math o waith cynnal a chadw - mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim

Ffôn: 01286 650655
Ffôn symudol: 07918733510
e-bost: kevindavies6287@gmail.com

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyd

Trefi taclus.

Yn rhifyn diwethaf yr “Eco” cafwyd adroddiadau am glirio sbwriel yn Llanrug a Deiniolen. Yn y rhifyn hwn mae adroddiadau pellach am weithgareddau yng Nghaeathro, Llanberis a Llanrug i wella safon yr amgylchedd lleol. Mae Cynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd yn fodd o gael cymorth tuag at y gwaith, megis benthyca offer.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Amgylchedd:

“Mae’n hynod galonogol gweld cymaint o frwdfrydedd i wella’r amgylchedd lleol. Gobeithiaf y bydd menter a balchder trigolion rhai o bentrefi’r fro yn ysbrydoli ardaloedd eraill trwy’r sir a bydd trefi a phentrefi Gwynedd yn elwa’n fawr iawn o ganlyniad i’w brwdfrydedd ac ymrwymiad cynllun Trefi Taclus i wella’r amgylchedd lleol.”

Ychwanegodd Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, Jonathan Neale:

“Does dim byd gwell i godi calon preswylwyr ein cymunedau na gweld pobl leol eraill yn mynd ati i wella eu cymunedau trwy godi sbwriel ayyb. Mae balchder bro o’r fath yn aml iawn yn ysbrydoli eraill i helpu allan ac yn codi cywilydd ar rai sydd yn lluchio’r sbwriel.”

Os hoffech gychwyn grŵp cymunedol eich hun i wella safon eich amgylchedd lleol, pam na gysylltwch â Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd am becyn cymunedol?

Mae pobl sydd yn lluchio sbwriel yn ddifeddwl mewn unrhyw fan cyhoeddus yn cyflawni trosedd. Gall person sy’n ei gael yn euog o daflu sbwriel dderbyn dirwy o hyd at £2,500.

I adrodd am unrhyw achos o dipio anghyfreithlon, cysylltwch â thîm Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd ar 01766 771000.

Mae’r cynllun Trefi Taclus wedi ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru fel rhan o gynllun gyda’r nod o wella ansawdd yr amgylchedd lleol.

Am fwy o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, cysylltwch â’r tîm ar 01766 771000 neu anfonwch e-bost i trefitaclus@gwynedd.gov.uk

Ymdrech eto i gasglu arian.

Yn ystod y mis nesaf bydd Malcolm Pitts o Lanrug yn codi arian unwaith eto drwy nofio a beicio. Ei fwriad yw nofio milltir a hanner bum gwaith ym mhwill nofio Plas Menai ac yna beicio o Blas Menai i Landudno, o amgylch y Gogarth ac yn ôl i’w fan cychwyn. Bydd Darren Brame, Swyddog Achub Bywyd ym Mhlas Menai yn teithio gydag ef.

Bydd Malcolm yn cael ei noddi, a bydd yn cyflwyno’r arian i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, er cof am ei wraig, Yvonne, ac i Gartref Gwynfa, Bontnewydd, sy’n arbenigo mewn gofal dementia. Mae ffurflenni noddi ar gael mewn gwahanol siopau a sefydliadau o fewn y fro.

Dymunwn yn dda iddo yn ei ymdrech eto eleni, a chawn hanes y daith a lluniau ar gyfer y rhifyn nesaf o’r “Eco”.

ECO’r Wyddfa

O’r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd 17 o Fawrth 2015

Materion Cyffredinol

Adroddwyd fod cyflwr y wal ger Tyddyn Elan wedi gwaethygu.

Adroddwyd fod y sefyllfa a’r broblem gyda llanstr ar ddiwrnod casglu biniau ail-gylchu yn parhau a mynegwyd bryder nad oedd darpariaeth ar gyfer glanhau strydoedd yn enwedig pan mai’n dywydd mawr.

Penderfynwyd i gysylltu a’r adran berthnasol i leisio pryder ac i geisio netiau i roi dros y biniau glas ailgylchu.

Caeau Chwarae

Penderfynwyd cysylltu a chwmni G L Jones i weld beth yw’r offer mwyaf poblogaidd ac addas ar gyfer plant hyd at 9 oed ac oddi fewn i’r gyllideb ar gyfer Cae Chwarae Nant y Glyn.

Adroddwyd fod Y Cadeirydd wedi cysylltu a Mr Emyr Williams o Gymdeithas Tai Gogledd Cymru parthed nifer o faterion diogelwch ar y gae chwarae Pwll Moelyn.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda Mr Emyr Williams o Gymdeithas Tai Gogledd Cymru parthed nifer o faterion diogelwch ar y gae chwarae Pwll Moelyn.

Adroddwyd ymhellach fod un o’r ‘scriwiau’ ar y ffram ddringo yn rhydd a penderefnwyd i gysylltu a chwmni G L Jones a gofyn iddynt gario allan asesiad risg o’r offer a thrwsio unrhyw ffeileddau.

Adroddwyd fod y coed yn cae chwarae Pwll Moelyn angen sylw. Penderfynwyd cysylltu a 3 arbennigwr i gael barn arbennigol am y sefyllfa a dyfynbris am wneud unrhyw waith angentheidiol iddynt os byddai angen.

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod cwyn wedi mynd i Gyngor Gwynedd am y llwybr ger Glanffynnon ag Afon Rhos ond hyd yma heb dderbyn ymateb. Adroddwyd ymhellach fod y sefyllfa yn gwaethygu ac fod dwr ayyb yn rhedeg ar draws y llwybr. Penderfynnwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i’w atgoffa o hyn.

Baw Ci

Adroddwyd fod y sefyllfa baw ci yn gwaethygu yn y pentref ac fod cerddwyr cwn i’w gweld yn gyson yn gadael i’w cwn garthu ar fannau cyhoeddus. Penderfynwyd ail gysylltu a Chyngor Gwynedd.

Cyllideb 2015 / 2016

Penderfynnwyd sefydlu gweithgor i weithio ar y gyllideb ar gyfer 2015/2016.

Adroddiadau’r Heddlu

Yn dilyn ymweliad PCSO Ian Rooksby i’r cyfarfod yn ddiweddar dosbarthwyd adroddiadau ganddo o ddigwyddiadau yn yr ardal. Penderfynwyd diolch am yr adroddiadau a gofyn os byddai’n bosib derbyn y wybodaeth yma bob 3 mis.

Cyflwr ffyrdd

Mynegwyd bryder am gyflwr y brif ffordd drwy Gwm y Glo ac hefyd am gyflwr Ffordd yr Orsaf, Llanrug a phenderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i ddod a hyn i’w sylw.






Bosch Service

Car Service

www.a-v-w.co.uk

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD

SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO

ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN

CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW

Bosch Car Service




ARVONIA

- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyffandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvoniaco.uk



O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION MAWRTH 2015:

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Olwen Gwilym, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Gwenda Roberts Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Iwan Harding, Iola Owen,

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 17eg o Chwefror, 2015 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Y Wefan:

Roedd y Clerc wedi gwneud apêl am luniau i'w rhoi ar y Wefan ac wedi cael ymateb. Roedd y wefan wedi ei chofrestru fel cyngorllanberis. cymru.

2. Cysgodfan Bws Newydd:

Cafwyd trafodaeth am y gysgodfan ar ôl i'r Clerc gael ar ddeall fod y pris yn nes at bedair mil na'r hyn a gafwyd yn wreiddiol. Roedd wedi cylchlythyru'r pris ar ebost ac yn dilyn trafodaeth fanwl penderfynwyd bwrw 'mlaen i brynu'r lloches yn y flwyddyn ariannol bresennol gan fod arian digonol wrth gefn, a'r penderfyniad fod angen y lloches yma wedi ei gymryd yn gynharach. Mae'r ffaith fod y lloches gyferbyn â'r feddygfa yn allweddol. Cafwyd mwyafrif clir o blaid ond gofynnodd ED am gael cofnodi ei bleidlais yn gwrthwynebu oherwydd y gost. Cynnig ac eilio: EB/DR.

3. Rhwydi Cae Pêl-droed UEFA:

Adroddwyd i'r Clerc lwyddo o'r diwedd i gael rhwydi newydd a'u bod wedi eu gosod. Mae ET wedi cytuno i barhau i ofalu am y cae am y flwyddyn i ddod er ei fod wedi ymddeol fel gofalwr Y Ganolfan.

4. Baw Ci:

Roedd un o swyddogion Cyngor Gwynedd (CG) wedi ymddiheuro am nad oedd y biniau newydd wedi eu gosod. Mae disgwyl y byddant yn eu lle yn fuan. Yn y cyfamser cafwyd cyflenwad o fagiau baw ci, ac fe'u dosbarthwyd. Adroddwyd bod gwaelod y bin yn Nantperis wedi diflannu.

5. Maes Carafannau Glyn Rhonwy:

Roedd y Clerc wedi holi un o swyddogion Adran Cynllunio CG, ac wedi cael sicrwydd fod y drefn arferol wedi ei dilyn, ac nad oedd y cwmni newydd wedi derbyn unrhyw ffafriaeth. Roedd y cwmni wedi gorfod cyfarfod a phob ymholiad oddi wrth y Cyngor a pharatoi'r holl

adroddiadau a manylion angenrheidiol. Gwnaed hynny i gyd yn unol a dymuniad CG.

MATERION ERAILL:

1. Llwybr: Crybwyllwyd eto nad oes modd cerdded y llwybr heibio Pyllau Dŵr. Penderfynwyd anfon gair at CG.

2. Strydoedd: Mae parcio yn dal yn broblem ar sawl stryd ym mhen gorllewinol y pentref.

GOSOD CYLLIDEB:

Cyflwynwyd Cyllideb Drafft a baratowyd gan BD a'r Clerc, a'r ddwy yn debyg iawn i'w gilydd. Penderfynwyd (yn ei absenoldeb o'r ystafell) i ychwanegu arian tuag at gyflog y Clerc a phenderfynwyd mai £5,000 fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer y Gronfa Mân Gymorthdaliadau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ymhlith cynlluniau eraill ar y gweill mae'r Wefan, y Grid Gwartheg, Goleuadau Nadolig (£1,000). Roedd lle i gredu y byddai tua saith mil o bunnau ar ôl eleni, ynghyd, wrth gwrs, â'r pum mil yn y gronfa wrth gefn.

Cyflwynir copi terfynol o'r Gyllideb i'r cyfarfod nesaf gyda'r gobaith o gael gweddill gweddol ar gyfer mân gynlluniau eraill ac ar gyfer argyfyngau posib. Soniwyd bod posibilrwydd y daw ceisiadau am gymorth tuag at wasanaethau y mae Cyngor Gwynedd (CG) yn ei chael hi'n anodd eu cyllido. Bydd rhaid ystyried pob yn unigol yn hytrach na damcaniaethu. Penderfynwyd na fyddai arian yn cael ei neilltuo'n benodol at hynny ar hyn o bryd. Ystyriwyd a ddylai'r Cyngor Cymuned roi arian tuag at y Ganolfan Ymwelwyr os daw cais. Pleidleisiwyd o fwyaftrif yn erbyn hynny.

Penderfynwyd fod angen dwy fainc newydd, y lleoliadau i'w penderfynu eto.

CYNLLUNIO:

APCE:

• NP3/15/31C – Ymestyn y tî i'r adeilad allanol presennol – Fron Rhedyn, Nantperis - dim gwrthwynebiad.

Y FYNWENT

1. Adolygwyd rheolau'r Fynwent yn sgil penderfyniadau a wnaed mis yn ôl.

2. Adroddwyd fod rhodd o £250 wedi ei dderbyn tuag at y fynwent gan Gomer Davies o Dregarth.

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:

a) Ysgol Dolbadarn: Adroddwyd i'r ysgol gael llwyddiant mewn sawl cystadleuaeth yn Eisteddfodau'r Urdd.

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

**"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"**



dioni.

http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Nos Fawrth 7fed o Ebrill 2015

Yn bresennol:- Y Cadeirydd Richard Ll. Jones a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Geraint Elis, Carolyn Roberts, Geraint Hughes, Elfed Williams, Jane Pierce Jones, Idris Thomas, Hefin Williams, Gwilym Williams.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Parch. Idris Thomas.

Ymddiheuriadau. Rhian Evans, Phyllip Jones, Rachel Williams, Aled Green a Sion Jones.

Bu i Sion Jones gyrraedd y cyfarfod yn ddiweddarach.

Datgan buddiant. Nid oedd datganiad.

Cofnodion cyfarfod 18fed o Fawrth 2015.

Derbyniwyd y cofnodion.

Materion o'r cofnodion

Gan fod y cyfarfod yn gyfarfod unigryw, ei anfon fel dogfen i ymddangos yn Eco'r Wyddfa.

Cofnodion Cyfarfod 3ydd o Fawrth

Ychwanegu y geiriau 'Mabwysiadwyd dogfen sy'n' o flaen 'cadarnhau mai Cymraeg yw iaith sydd yn weithredol yn y Cyngor.

Fel arall derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cais ymatebwyr cyntaf - Penderfynwyd i'r clerc ffonio Barry Davies i gael sgwrs a gobeithio cael eglurhad a sicrwydd bod yr arian yn mynd at ddefnydd ymatebwyr cyntaf lleol.

Quarry Battery – Yn dilyn e-byst gan Dave Holmes yn ymateb i lythyr oddi wrth y cyngor, ynglŷn â sut i rannu buddiannau yn gyfartal rhwng y cymunedau. Penderfynwyd gyrru llythyr yn ôl iddo yn awgrymu ffurfio panel i drafod ceisiadau, a'r panel wedi ei ffurfio gyda chynrychiolwyr o'r 5 Cyngor, h.y. Cynghorau: Betws Garmon, Waunfawr, Llanrug, Llanberis a Llanddeiniolen ynghyd â cynrychiolwyr o Quarry Battery.

Derbyniwyd llythyr ar faterion priffyrdd

Pant ar y ffordd – gwaith Dŵr Deiniolen, yn debygol o gael ei drwsio yn y flywyddyn ariannol newydd.

Cyflwr ffyrdd Brynrefail – ar restr o leoliadau angen eu ail-wynebu.

Ffordd Deiniol, Deiniolen – Pryder y gymuned yn ystod adegau o rew ac eira – y lôn ar flaenoriaeth 2 yn dilyn graeanu priffyrdd blaenoriaeth 1.

Ffordd Mynedfa Maes Gwylfa – Gwynedd yn edrych a'u harolygu o ran diogelwch. Ymyl werdd - wedi cysylltu â CCG, gan mai hwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw hwn.

Gohebiaeth a materion eraill.

Llywodraeth Cymru – Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru i dynnu ein sylw at bwysigrwydd treftadaeth yn ein hardal. Penderfynwyd gyrru copi o'r llythyr i bob ysgol. Penderfynwyd hefyd ymateb i'r llythyr drwy yrru map Gareth Roberts, gan dynnu sylw at be sydd gennym yn ardal ein cymuned ni gan ofyn be all Llywodraeth Cymru wneud i gryfhau hyn?

Gwnaethpwyd sylwebaeth pellach yn dilyn y llythyr o Lywodraeth Cymru am Ysbyty Chwarel, yr Amgueddfa Lechi a Chwarel Dinorwig. Trafodwyd potensial o ddatblygu y maes parcio yn Allt Ddu Dinorwig fel Amgueddfa Awyr agored efallai a datblygu llwybr treftadaeth, i bwysleisio pwysigrwydd hanes y Chwarel. Yn sicr mae yr ardal yn colli cyfle yma gan fod cannoedd o bobl yn ymweld â'r ardal bob wythnos. Penderfynwyd gyrru llythyr ynghylch y mater i Dafydd Roberts yn yr Amgueddfa Lechi.

Age Cymru Gwynedd a Môn- Derbyniwyd Llythyr yn gofyn am gefnogaeth fel corff i ddatblygu rhan o hen gartref Bontnewydd. Penderfynwyd cefnogi trwy yrru i bob Mudiad henoed o fewn ein cymuned.

Eisteddfod yr Urdd.

Mae yn ymddangos bod cynifer o eitemau yr ardal wedi bod yn llwyddiannus yn eisteddfod rhanbarth yr Urdd, ac felly yn cael mynd i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerffili. Yn yr un modd derbyniwyd cais ar ran Band Ieuencid Deiniolen, yn gofyn am nawdd tuag at gostau bws i gystadleuaeth ieuencid yn y Drenewydd fis Mehefin.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Ty'n Rhos Bethel – agor mynediad a darparu trac newydd.

14 Y Ddôl, Bethel – Codi estyniad deulawr ar ochor yr eiddo.

Old Cinema Site, Deiniolen – Ail gyflwyniad o gais a ganiatawyd ar gyfer codi 2 dy.

Tir Gyferbyn â Tŷ Elin, Penisarwaun – Codi 3 tŷ fforddiadwy

Coed Rhydau – derbyniwyd llythyr yn yn ein hysbysu y cynhelir gwrandawiad anffurfiol ar gyfer yr apêl yma am 10:00 Ebrill 21.

Llwybrau

Derbyniwyd llythyr gan Menter Fachwen yn ein hysbysu na fyddant yn gallu tendro ar gyfer clirio a thorri gwair y llwybrau eleni.

Gan fod Menter Fachwen yn trin y rhan fwyaf o'r llwybrau, yn dilyn trafodaeth penderfynwyd rhoi hysbyseb cyhoeddus am tendr i drin llwybrau a thorri gwair yn yr Herald ac Eco'r Wyddfa.

Dyfodol Bethel a Seion yn Nghyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu y cyfarfod cyhoeddus oedd ym Methel ar y 19eg o Fawrth. Roedd oddeutu 15 o bobl yn bresennol yn y cyfarfod, sydd yn ganran isel iawn o etholwyr Bethel a Seion.

Daeth cadarnhad gan y cynghorydd Sion Jones na fydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal, ond ei fod yn hynod falch o fod wedi cynnal y trafodaethau.

O gwmpas y Bwrdd

Carolyn Roberts – Cyfeiriodd at arwydd Brynrefail wedi ei dorri ger Lllys.

Wal wedi disgyn ger bont Injan.

Llythyr i Wynedd

Geraint Hughes – Cyfeiriodd at Bant yn y ffordd yn sigo yng Ngwaelod lôn Marchlyn ger Erw Fair. Mae arwydd o hwmp yno ers tro. Llythyr i Wynedd.

Idris Thomas – Cyfeiriodd bod Gwynedd wedi cytuno i atgyweirio y lôn rhwng Cwt Band a Racca. Pa bryd fydd y gwaith yn cael ei wneud? Llythyr i Wynedd.

Elfed Williams – Dywedodd Elfed bod enwau ar y Ddeiseb Llyfrgell yn mynd yn dda. Nid ydym byth wedi clywed gan Sian Shakespear Associates. Clerc i gysylltu eto.

Hefin Williams – Cyfeiriodd Hefin bod ambell un yn holi am dorri y llwybrau, sydd eisoes wedi ei drafod. Hefyd ychydig wythnosau yn ôl fe hitiodd lori oedd yn dod â nwy wal yn Stryd Wesla, Rhiwlas. Mae hyn wedi effeithio ar 4 postyn. Mae trafodaeth wedi bod o'r blaen ynghylch parcio ar y ffordd a'r posibilrwydd i'r cyngor ddarparu maes parcio yn Cae Pella Rhiwlas. Ydi yn bosib tynnu sylw i newid Cae Pella yn faes Parcio. Llythyr i Wynedd.

Jane Pierce Jones – Cyfeiriodd i longyfarch grŵp dawnasio sydd wedi bod yn llwyddiannus i fynd trwodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a gobeithio y gallwn roi nawdd ariannol tuag at gostau teithio. Cyfeiriodd hefyd, nad ydym ni yng Ngwynedd ddim yn codi digon, neu yn aml iawn ddim, am fynd i mewn i lefydd megis amgueddfeydd, Wyddfa ayyb. Pobl yn aros gyda hi methu deall. Pam?

Sion Jones – Dywedodd Sion fod cae chwarae Bethel wedi derbyn grant o 5 mil i adnewyddu llefydd chwarae i blant, ac eu bod eisoes wedi archebu 2 eitem i'r cae chwarae. Mae hefyd yn gobeithio creu ardal bicnic yn y cae, os bydd posib cael nawdd tuag at hynny.

Gwilym Williams - Gofynnodd a oedd yna wrthwynebiad iddo roi syniadau at ei gilydd i ddatblygu cynllun o beth fuasai yn rhagweld neu rhywbeth fuasai yn gallu cael ei ddatblygu yn ardal Allt Ddu, Dinorwig. Croesawodd y Cyngor hyn ac edrychwn ymlaen efallai ar weithio ar brosiect newydd i'r ardal.

Cyfarfod arbennig i drafod Cynllun Lleol Gwynedd a Mon.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 18fed o Fawrth, gyda Nia Haf Davies, Pennaeth y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei gwahodd yno i drafod gyda'r cynghorwyr.

Esboniwyd strwythur y Cynllun Lleol a'r camau statudol oedd angen eu dilyn. Eglurwyd fod rhai polisiau yn gyffredin i'r holl ardal ond fod eraill wedi eu hanelu ar gyfer ardaloedd twristaidd. Trafodwyd y meini prawf ar gyfer datblygu megis patrwm geni a marw, poblogaeth, mudo, economi, iaith, diwylliant a datblygiadau mawr.

Nodwyd yn achos ardal Deiniolen a Chlwt y Bont mai dyfalu ble i roi tai mae'r cynllun yn hytrach na mynd ati i ddarganfod yr anghenion, megis tai henoed, tai ar rent neu dai i bobl leol.

Mae prisiau tir a chostau adeiladu yn golygu problemau i sicrhau tai fforddiadwy, ac nad oedd arolwg wedi ei wneud i adnabod y ffigwr cywir, gan fod gwahaniaeth dybryd rhwng ardal Bethel a Deiniolen.

Mynegwyd pryder hefyd fod tai'n cael eu hadeiladu heb ddim gardd, ac y dylid hanneru nifer y tai er mwyn ateb yr angen am libart o amgylch y cartref. Yn achos Bethel roedd pryder ynglŷn â diffygion y sustem garthffosiaeth, a bod angen gwella'r sustem cyn caniatáu mwy o ddatblygu.

I gloi, cyfeiriwyd at y dull cywir o yrru ymatebion i'r Cynllun Datblygu Lleol. Penderfynwyd fod yr ymatebion a amlinellwyd ar y noson yn cael eu trosglwyddo i'r Clerc mewn da bryd er mwyn ymateb cyn y dyddiad cau, sef 31ain o Fawrth.

Gair gan y Golygydd: Derbyniwyd cofnodion llawn y cyfarfod uchod i'w cynnwys yn yr "Eco" (fel sy'n cael ei nodi yng nghofnodion misol y Cyngor ar y dudalen hon). Mae cyfeiriadau yn y cofnodion rheini at bennodau arbennig yn y Cynllun Lleol, a dyfynnir nifer helaeth o ystadegau a chanrannau. Penderfynwyd peidio a chynnwys y cofnodion yn llawn oherwydd eu maint ac oherwydd na fyddai llawer o'r cyfeiriadau yn ystyrlon i lawer o'r darllenwyr. Ac wrth gwrs, mae'r dyddiad cau ar gyfer anfon sylwadau wedi hen fynd heibio bellach.


Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Gwahoddir ymgymerwyr i fynegi diddordeb am waith torri tyfiant ar lwybrau cyhoeddus

oddi fewn plwyf Llanddeiniolen.

Am fanylion a phecyn tendro, cysylltwch a'r clerc

Eleri Bean, 01286 871757



Ar ben arall i'r lein

Newydd gael pentwr o adroddiadau drwy'r post bore 'ma, dogfennau sy'n rhoi ein hachos i'r Uchel Lys gysidro unwaith eto i benderfynu cael adolygiad barnwrol ar safon ail ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru ar broblemau Padarn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflogi cwmni o gyfreithwyr/ bargyfreithwyr o Lundain i ddadlau eu bod yn dderbyniol i Dŵr Cymru gario 'mlaen a'i arllwysiadau is-safonol. Cofiwch, ni y cyhoedd, sy'n talu am hyn i gyd. A phwy yn y pen draw yw meistri Cyfoeth Naturiol Cymru - wel ein llywodraeth yng Nghaerdydd, wrth gwrs, mae digon o arian i rhai pethau yn ôl pob golwg. Yn enwedig pan mae eisiau achub eu cam eu hunain. Cofiwch ofyn be maent yn ei wneud i ddatrys problemau'n dyfroedd pan fydd cnocio ar eich drysau hyd at ddiwrnod y pleidleisio ar 7ed Mai.

Nid yn unig ein cymdeithas ni sydd yn codi tipyn o stŵr ynglŷn â'r CNC 'ma. Hyd at 27ed Ebrill 'roedd ymgynghoriad drwy anfon gwybodaeth ysgrifenedig i'r cynulliad ynglŷn â pherfformiad y ddwy flynedd gyntaf ym mywyd Cyfoeth Naturiol Cymru. Pwrpas y gwahoddiad yw i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynladwyedd graffu ar berfformiad y corff yn yr wythnosau nesaf.

Drwy geisio bod yn positif a chymryd rhan mewn be sy'n dod allan o Gaerdydd fe ymatebais i'r cais, ond yn anffodus bu'n rhaid codi tipyn o stŵr cyn i'r llythyr gael ei gyhoeddi. Mae diolch i'n Aelod Cynulliad a'i staff yng Nghaernarfon am sicrhau hyn. Y rheswm am yr oedi, yn ôl pob golwg, 'roedd yn angenrheidiol i sylwadau yn y Gymraeg gael eu cyfieithu i'r Saesneg, ac i'r ddogfen Saesneg gael ei hanfon ynghlwm â'r Gymraeg. Wrth gwrs, os ydi rhywun yn ymateb yn Saesneg yna does dim angen cyfieithu i'r Gymraeg!

Mae'n werth taro golwg ar yr ymatebion i gyd ar www.senedd.assembly.wales/mgConsultationDisplay. Tybed a oes rhyw elfen o'r 'Welsh Not' yn dal i fod yn fyw ac yn iach yn rhai coridorau'r llywodraeth. Does eisiau gras 'dwch?

Mae'n mynd fel nad oes dim amser na lle i drin llawer ar 'sgota, gan fod yr holl achosion a gweinyddu yn cymryd amser pawb - ond dyma ychydig sy'n digwydd ar erwau'r enwair. Hyd at ganol Ebrill araf iawn mae hi wedi bod - er ar adegau mae tipyn o frithyll wedi eu gweld ar y Seiont yn Stablau. Cofiwch hen enwau'r pyllau yma o Bont Penllyn i Bont Rhythallt - Rhyd Bach a Rhyd Mawr, Llyn Bogelyn, Seston Fawr, Pwll Fôn, Pwll Garreg Fran a Tro Tryciau. 'Rwyf ar ddeall fod cwmni teledu am gynnwys hen enwau'r afon ar ryw raglen sy'n cael ei chynllunio ar atyniadau'r arfordir. Cawn weld be a ddaw o hyn.

Ond, wrth gwrs, y dydd i ddisgwyl amdano oedd 14ed Ebrill pan aeth stoc o frithyll yr enfys i Lyn y Dywarchen, rhai da hefyd, ond maent yn eithriadol o anodd i'w denu. Rhaid i'r tymheredd godi rhyw ychydig yn y nos cyn gweld tipyn mwy o awch bwyta. Bydd stocio misol yma hyd at fis Medi. Efallai y buasai rhai sy'n gwarchod diddordebau Gweilch y Pysgod ar y Glaslyn yn licio cyfrannu tipyn at ein costau, gan fod y gymdeithas yn cyfrannu cryn tipyn at fwydlen yr adar 'ma! Mae nhw'n rhai go llwglyd, ac yn tipyn gwell 'sgotwrs na rhai o'n aelodau! Ewch draw yn gynnar yn y bore, ychydig ar ôl iddi wawrio. Mae tipyn o sioe i'w gael ar adegau.

Wrth i'r tymor droi i fis Mai, dyma'r adeg os cawn ychydig o ddŵr y disgwylir gweld rhai o'r gwyniadau mawr yn rhedeg y Seiont. Dydw i ddim di gweld fawr o'r rhain ers tipyn o flynyddoedd, ond maent yn bysgod sydd ddim yn oedi rhyw lawer cyn rhedeg yr afon am Stablau. Dyma ble byddaf yn rhoi rhyw dro arni at ddiwedd y mis i edrych a oes rhai o gwmpas. Lle cyntaf yw Llyn Garnage, wedyn i Lyn Pont Wyrdd a Llyn Distaw, yna am Lyn Engan a wedyn Llyn William Owen, Llyn Glanrafon a wedyn Llynnoedd Tywod a Doctor. Os oes dim wedi dangos eu cynffon yna mae rhy hwyr am dymor arall.

Diwrnod i'r dyddiadur yw Mercher 27ed Mai pan fydd diwrnod i gael tipyn o hyfforddiant pysgota a saethu colomennod clai wedi ei drefnu ar dir Gwesty'r Seiont Manor, Llanrug. Dechrau am rhyw 10.30 y bore hyd at 4.00 yr hwyr. Bydd brithyll braf wedi eu rhoi i mewn i lyn y gwesty erbyn y digwyddiad. Felly mae cyfle da am swper -a'r cwbl yn ddi-dâl.

A dyna ni am y tro

Huw Price Hughes.

Dewch i sgïo yn ystod yr haf...

Gydag eira gaeafol y cysylltir y gamp o sgïo fel arfer, ond eleni gwneir apêl gan Glwb Snowsport Gogledd Cymru ar i blant o bob oed ddefnyddio cyfleusterau llethr sgïo Plas y Brenin yng Nghapel Curig.

Ail-agorwyd llethr sgïo Plas y Brenin ym mis Medi y llynedd, a hynny wedi iddo fod ar gau ers dros ddwy flynedd.

Bu aelodau o Glwb Snowsport Gogledd Cymru (CSGC); plant a phobl ifanc yn bennaf, yn gwersylla ar y llethr mewn protest oherwydd ei gau. Arweiniodd hyn at gyfarfod rhwng Sport England (sef perchnogion Plas y Brenin), y Mountain Training Trust (sy'n rheoli Plas y Brenin) a chorffllywodraethol Snowsport Cymru. Wedi rhai misoedd o gynnal cyfarfodydd penderfynwyd adnewyddu'r llethr sgïo. Roedd angen i CSGC godi £30,000 a byddai Sport England yn cyfrannu'r £30,000 arall. Derbyniodd CSGC gymorthdal o £17,000 gan elusen o'r enw Skiers Trust, ond bu'n rhaid i'r clwb weithio'n galed i godi gweddill yr arian.

Bu'r ymdrech yn llwyddiant digamsyniol. Mae swyddogion y clwb wedi eu synnu gan y brwdfrydedd a'r diddordeb a ddangoswyd yn y llethr sgïo ers ei ail-agor. Maent bellach yn ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r llethr er mwyn profi fod galw ac angen amdano yng ngogledd Cymru. Mae Clwb Sgïo wedi ei sefydlu, a chynhelir gwahanol sesiynnau ar gyfer dysgwyr a rhai mwy profiadol. Yn ogystal mae hyfforddiant ar gael mewn

eira-fyrddio a chynhelir rasys sgïo i wahanol oedrannau.

Mae aelodaeth CSGC wedi tyfu o tua 70 i dros 350, a'r nifer yn cynyddu'n wythnosol. Plant ac ieuenctid yw'r mwyafrif o'r aelodau, a daw llawer ohonynt o fro'r "Eco". Eisoes mae Ysgol Brynrefail ac ysgolion cynradd Dolbadarn a Llanrug wedi dilyn sesiynnau sgïo yno, a daw llawer mwy o unigolion a grwpiau o bentrefi eraill y fro. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu criw ffilmio S4C yn dilyn rhai o blant Llanberis a Llanrug ar y llethr, a bydd y rhaglen yn cael ei darlledu yn fuan.

Does dim rhaid bod yn aelod o glwb i ddefnyddio'r llethr: gall grwp archebu lle arno a mwynhau'r adnoddau.

Un o'r rhai fu'n weithgar i gael y llethr yn ôl ar ddefnydd, ac un sy'n aelod o CSGC yw Robina Shaw o Dan y Coed, Llanrug. Mae'n awyddus i lawer mwy o blant, pobl ifanc ac oedolion gymryd mantais o'r adnodd hwn, ac mae croeso i chwi gysylltu â hi am fwy o wybodaeth (01286 879000). Os ydych â diddordeb mewn archebu lle ar y llethr, ffoniwch Blas y Brenin (01690 720214). Mae'r llethr ar agor bob diwrnod o'r wythnos rhwng un o'r gloch y pawns a naw o'r gloch y nos. Ar Sadyrnau a Suliau, yr amser agor yw hanner awr wedi deg y bore hyd chwech yr hwyr.

Mae'n hynod bwysig dangos i berchnogion a rheolwyr Plas y Brenin fod galw lleol a defnydd rheolaidd o'r llethr sgïo. Dyna'r syniad tu ôl i'r apêl ar i chi ddod i sgïo yr haf hwn!

Chwaraeon

RHEDEG MYNYDD

Mae'r tymor wedi cychwyn o ddifrif bellach, a thair o rasys nos Fawrth eisoes wedi bod. Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd Ras Pen Dinas, Nant Peris ar fin cael ei rhedeg, ac eraill i ddilyn yn ystod mis Mai. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i geisio darogan enillwyr, ond mae rhedwyr y fro eisoes yn amlygu eu hunain.

Mae cyfres rasys ffyrdd y 'Borders League' i glybiau gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr yn tynnu at ei therfyn, ac yn Ras 10 cilomedr Caernarfon yn ystod Ebrill, enillodd Mathew Roberts, Llanberis ei ras gyntaf yn y gynghrair cyn troi ei gefn ar y ffyrdd a wynebu her y mynyddoedd yn y misoedd i ddod.

Ac yn ras gyntaf Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain – Ras y Moelwyn ym Mlaenau Ffestiniog, daeth Mathew yn drydydd allan o dri chant a hanner o redwyr mynydd gorau gwledydd Prydain, eiliad yn unig tu ôl i bencampwr y llynedd. Dechreuad arbennig i'r rhedwr lleol. Ef hefyd oedd y rhedwr cyntaf o Gymru ac arweiniodd dim gogledd Cymru i fuddugoliaeth yng nghystadleuaeth y siroedd hefyd.

Roedd Bronwen Jenkinson, Y Waunfawr, hefyd yn cystadlu, ac yr oedd hithau, a Helen Teasdale, Dinorwig yn rhan o dim merched gogledd Cymru a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y siroedd. Ar yr un penwythnos roedd dau o fechgyn lleol yn cystadlu ym Marathon Manceinion. Rhedodd Ian Davitt o Lanrug y 26 milltir mewn 3 awr 23 munudd, ac Emyr Gibson, Deiniolen gynt, mewn 3 awr 35 munud, ei amser gorau erioed dros y pellter.

Hefyd ar yr un penwythnos roedd Huw Owen, Llanrug yn ennill cystadleuaeth sy'n brysor dod yn fwy poblogaidd, sef rasio efo ci. 'Cani-cross' yw'r enw Saesneg a roir i'r math hwn o gystadlu. Pwy fentrith fathu enw Cymraeg iddo? Roedd Huw a'i gi, Mia yn rhedeg wyth milltir a hanner ar lwybrau coedwig Coed y Brenin.



Dyma'r pellter hwyaf i Mia ei redeg mewn cystadleuaeth. Roedd dau ddwsin o redwyr a'u cŵn yn cystadlu.

Roedd nifer o redwyr lleol yn cystadlu ym Marathon Llundain fel roedd yr "Eco" yn mynd i'w wely. Cawn hanes eu llwyddiannau (gobeithio!) yn y rhifyn nesaf.

Y CWPANNAU YN DENU SYLW

Wrth edrych ymlaen i'r rownd derfynnol Cwpan Cookson rhwng yr hen 'elynnion' Llanrug a Threffynnon dywedais " siawns fod cyfle Llanrug wedi cyrraedd bellach."

Gwir fu'r ddamcaniaeth a daeth tlws cyntaf y tymor i Eithin Duon. Heb os Treffynnon yw un o brif dimau'r Gogledd ar bob lefel. Dyma dim allai gyrraedd Prif Adran Cymru yn y tymhorau nesaf. Mae tymor llwyddianus gynghreiriol Llanrug yn parhau gyda gobaith o orffen yn drydydd mewn cynghrair gystadleuol iawn. Ond mae uchafbwynt arall ar ôl. Mae'r hogiau wedi cyrraedd rownd derfynnol Cwpan Mawddach a byddent yn wynebu Treffynnon ar faes Nantporth ar Sadwrn Mai 9ed. am 2.30pm.

Buasai cipio'r tlws yma yn rhoi dwbwl braf i'r tim gan gofio hefyd eu rhediad wrth geisio dal eu gafael ar Dlws C.P. Cymru.

A dyna linc braf at Lanberis a drechodd Lanrug yn y gystadleuaeth cyn colli i Benrhyndeudraeth a gollodd i Dreffynnon yn y rownd derfynnol. Mae Llanberis wedi cael diwedd da i'r tymor gynghreiriol gyda dau berfformiad clodwiw yn erbyn dau o'r ceffylau blaen Treffynnon a Llanrug. Cafwyd dwy gêm gystadleuol gyda'r ddwy gêm yn gorffen 1 -1. Yn y ddwy gêm roedd Llanberis ar ei hól hi, ac eto brwydro yn ôl ac efallai teimlo fod cyfle wedi ei fethu i gipio'r triphwynt.

Ond, gall un arall o'r prif dlysau ddod i'r ardal. Mae'r Waunfawr yn wynebu y gêm fwyaf yn hanes y clwb. Drwy guro Llanystumdwy o 1-0 mae'r Beganifs drwodd i rownd derfynnol Cwpan Ganolradd Arfordir y Gogledd. Yn eu hwynebu bydd unai Rhyl neu Brestatyn. Diwrnod i edrych ymlaen iddo, ac fe dwymodd hogia'r Waun drwy rhoi cweir o 9-0 i ail dim Llanrug.

Dros y blynyddoedd roeddem yn dilyn hynt ein timau lleol yn y Junior Cup. Mae Llanberis, Llanrug, Bethel a Deiniolen yn gynennillwyr. Prin yw'r gobeithion erbyn hyn, ond braf gweld timau sydd wedi 'symud i fyny' yn cynnal pedigri pêl-droed y gornel fach yma o'r gogledd.



HERIO'R COFIS



Mae yn wyth tymor bellach ers sefydlu tim ieuenctid merched ym Methel. Bu yn gyfnod llwyddianus iawn yng Nghynghrair Genethod Gogledd Cymru. Yn ystod y cyfnod ennillwyd y gynghrair dan 14 a dan 16. Llwyddwyd hefyd i gipio rhai o gwpanau y gynghrair. Roedd hyn yn dipyn o glod i ardal wledig gyda nifer cyfyngedig o chwaraewyr. Mae'n siwr mai un o'r uchafbwyntiau oedd cipio Cwpan Cymru Tesco dan 14.

Gyda nifer y clybiau merched yn cynyddu daeth yn fwy anodd i

Alaw Huws



chyfarfod timau mwy sefydlog a phrofiadol.

Serch hynny, mae'r merched wedi dal eu tir ac un o'r uchafbwyntiau oedd trechu tim Dinbych – pencampwyr y gynghrair – yn rownd gyn-derfynnol y cwpan o 2-1. Dyma'r unig gem i Ddinbych golli y tymor yma. Un o sgorwyr Bethel oedd Alaw Huws y prif sgoriwr dros y tymor. Gwobr y tim yw wynebu tim Caernarfon yn y rownd derfynnol. Tipyn o gem a gobaith da gan genod y wlad.

Llongyfarchiadau hefyd i Charley Smith, a ddewiswyd i gynhyrchioli tim Colegau Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i Iorwerth Williams y rheolwr, ac Andrew Roberts ac Elinor Williams y rheolwyr cynorthwyl.

gynnal llif o chwaraewyr ieuanc i gynnal y tim. Arhosodd y genethod gyda'i gilydd a gyda chymorth rhai o du allan i'r cylch sefydlwyd tim merched 2 flynedd yn ôl. Aros yng Nghynghrair y Gogledd, ond yn amlwg gyda mwy o deithio a

Captain Tim Cymru.



Ifan Emlyn (gyda'r cap) a gweddill tim Colegau Cymru yn Rhufain.

Llongyfarchwyd Ifan Emlyn Jones o Lanrug eisoes am gael ei ddewis i garfannau dan 18 oed Cymru a Cholegau Cymru. Erbyn hyn mae Ifan yn gapten tim Pel-droed Colegau Cymru, ac yn ystod y mis diwethaf cafodd y fraint o'u harwain mewn twrnameint yn Rhufain a gynhaliwyd am gyfnod o wythnos. Marc Lloyd Williams (Llanberis gynt) oedd rheolwr y tim.

Cymysg oedd profiadau'r tim, gan ennill un a cholli dwy gem. Ond rhaid ystyried mai nid yn erbyn timau colegau y gwledydd eraill roedd Cymru'n cystadlu. Tim Amatur yr Eidal oedd eu gwrthwynebwyr yn y gem gyntaf, a thimau ieuenctid llawn Albania a Malta oedd yn eu hwynebu yn y ddwy gem arall.

Nid ar y maes pel-droed yn unig y cawsant brofiadau i'w trysori. Gwahoddwyd hwy i Seremoni Ddinesig gan Faer Rhufain, ac ar ddiwrnod olaf eu hymweliad aeth Gary Williams (o Ddeiniolen yn wreiddiol) a hwy ar daith o amgylch y ddinas. Mae ef bellach yn byw yn Rhufain, a chafodd y garfan gyfan eu cyfareddu gan hanes y ddinas – a'u tywysydd yn gallu siarad â hwy yn Gymraeg.

Meddai Ifan, "Chafodd neb ei siomi, a chawsom y cyfle i chwarae yn erbyn gwrthwynebwyr da iawn. Gobeithio y cawn wahoddiad i ddod yn ôl y flwyddyn nesaf eto."

Bronwen Jenkinson



Mae Bronwen Jenkinson o'r Waunfawr yn brysur gwneud enw iddi ei hun ym myd rhedeg, ac yn ystod diwedd Mawrth bu'n cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth traws-gwlad yn Belfast. Cystadleuaeth ryngwladol rhwng gwledydd Ynys Prydain oedd hon, a dyma'r tro cyntaf i Bronwen redeg dros Gymru mewn ras traws-gwlad. Ond a hithau'n parhau yn yr oedran dan 18 oed, roedd yn rhedeg dan 20 oed yn Belfast, a'r mwyafrif o'i gwrthwynebwyr ddwy flynedd yn hyn na hi. Roedd hyn yn dilyn ei thrydydd safle ym mhencampwriaethau traws-gwlad Cymru yn gynharach yn y flwyddyn.

Ond rhedeg mynydd yw ei chryfder, ac y mae'r tymor hwnnw eisoes wedi cychwyn. Yn rownd gyntaf pencampwriaeth Iau Prydain yn ardal Buxton, swydd Derby daeth yn ail dan 18 oed. Ac yn ras gyntaf cyfres Rasys Nos Fawrth, torrodd ei record ei hun ar gyfer y cwrs. Mae bellach yn dal record merched dan 16 oed a merched dan 18 oed ar Foel Tryfan.

DAU GYMYDOG, DWY GÊM, SAWL CAP...




COLLI ARWR

Erbyn heddiw yn oes y lloeren a phob camp ledled y byd yn llifo i'n cartrefi hawdd yw dod yn 'arwr pum munud'. Un gôl, un cais, un cant a dyna lifeiriant o eiriau neu luniau yn llenwi'r colofnau a sgriniau.

Yn ddiweddar bu farw un o'm harwyr o ddyddiau ieuencid sef Richie Benaud y cricedwr a sylwebydd praff. Ni welais ef erioed yn y cnawd, a prin ei weled ar yr hen sgrin ddu a gwyn. Edmygwn ef gan fy mod i fel yntau yn fy ieuencid yn droellwr coes (leg spinner). Adar prin oedd y rhain, yn enwedig yng Ngogledd Cymru y 60/70 au. Daeth nifer o fy wicedi cynnar i glwb Bangor diolch i 'st. T.G.Jones b R.L.Jones'. Mae'r bêl sydd yn troelli oddiwrth y bat yn fwy bygythiad.

Yn un o fy nhymhorau cynnar cymerais 30 wiced un tymor, tipyn o gamp gan mai y bowlwyr cyflym reolai'r llain yn Nhŷ Newydd yr adeg hynny. Fel gwobr cefais lyfr Richie Benaud – 'The Art of Spin Bowling'. Daeth hwn yn feibl imi. Ble i fowlio, pa faes i'w osod, astudio batiwr i geisio darganfod gwendid. Ond, y wers bwysicaf mai arfymosodol yw'r troellwr. Rhaid iddo fod yn barod i dderbyn y caiff ei daro i sawl cyfeiriad weithiau. Rhaid iddo wrth hyder yn ei ddawn cynhenid. Da y dywedodd y meistr, ac mae un o'i ddisgyblion Shane Warne wedi profi'r ddamcaniaeth i'r eithaf. Fel sylwebydd roedd ymysg y goreuon. Roedd yn parchu ethos y gem, ei brwydrau unigol, dawn y chwaraewyr ac yn dangos ei gariad gynhenid at y gem. Dyn yr ychydig eiriau, ond i bob un ei werth a pherthnasedd. Ni chollodd unrhyw gyfres prawf tra'n gapten ac yn sicr roedd yn un a osododd y sylfaeni sydd wedi rhoi Awstralia ar ben y rhestrau rhyngwladol bellach. Gwir gawr y gêm. Un nodyn cricedol arall. Mae rhai o gyn-chwaraewyr Fron Dinas wedi dod ynghyd ac ail ffurfio tim criced Caernarfon. Maent am chwarae yng Nghynghrair Ganol Wythnos Môn/Arfon a chwarae eu gemau dan arweiniad Iwan Roberts – troellwr arall – ar faes Bangor yn Nhŷ Newydd. Croeso i aelodau newydd gysylltu ac Andre Lambrecht am fwy o fanylion.



Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

DRYSAU □ FFENESTRI

A CONSERFATORIS UPVC

AMCANBRIS AMDDIM

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Yn endigol o Ddinorwig, chwaraeodd Irfon bêl-droed i dîm Ysgol Brynrefail cyn ymuno â thîm ieuencid yr enwog Menai Bridge Tigers. Cafodd dreialon i dîm Blackpool bryd hynny. Yna ymunodd a thîm Tryfan Rangers (faint ohonoch sy'n cofio'r tîm hwnnw yng Nghynghrair Caernarfon?) cyn cael ei arwyddo i dîm Caernarfon. Bu'n chwarae i dîm y dre am ddau dymor cyn symud yn nes adra ac ymuno â Llanberis; y tîm a enillodd bron bopeth oedd yn bosib ei ennill yn y cyfnod hwnnw. Mae'n siwr mai safon ei chwarae i Lanberis a ddenodd sylw tîm Dinas Bangor. Arwyddodd iddynt yn nhymor 1966-67 fel cefnwr chwith, a bu'n chwarae am chwe thymor iddynt.

Yn 1970 fe'i dewiswyd i chwarae i Dîm Amatur Cymru. Yn erbyn yr hen elyn, Lloegr, roedd ei gêm gyntaf, a hynny ar Barc Ninian, Caerdydd. Colli o un gôl yn unig fu'r hanes, ond roedd y gêm nesaf yn llwyddiant, gan guro'r Alban ar eu tomen eu hunain o dair gôl i ddim. Gêm gyfartal i ddilyn yn erbyn yr Iwerddon, ac yna colli o ddwy gôl yn erbyn yr Iseldiroedd. Mae Irfon yn cofio y ddau frawd Van der Kirkoff yn chwarae i'r Iseldiroedd. Bedair blynedd yn ddiweddarach roedd y ddau wedi troi'n broffesiynol ac yn cynrychioli'r Iseldiroedd yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd. Tybia Irfon mai ef yw'r unig un sydd wedi cynrychioli ei wlad sy'n enedigol o Ddinorwig, ond byddai'n falch o glywed os oes rhywun arall.

Oes yna gymdogion eraill yn y fro sydd wedi ennill capiau cenedlaethol am wahanol chwaraeon? Rhowch wybod.


DA WÂS, DAA FFYDDLON

Mae'r hen air yn wir yng nghyswllt Terry Saynor, fydd yn ymddeol fel rheolwr tîm Llanberis diwedd y tymor. Mae pêl-droed a chlwb Llanberis yng ngwaed Terry yn ymestyn yn ôl i'w daid William Griffith (Wil Padarn Road) a'i ewythr Roy Griffith.

Rhoddodd Terry dymhorau o wasanaeth i'r clwb fel chwaraewr, capten, pwyllgorddyn a hyfforddwr/rheolwr. Mae Terry yn gystadleuol o natur ac yn mynnu fod ei dîm yn rhoi o'u heithaf am iddynt gael y ffrind o gynhyrchioli'r Darans – yn enwedig yn erbyn yr hen elynion i lawr y dyffryn! Gall ymfalchio hefyd ei fod wedi meithrin carfan gweddol ieuanc sy'n chwarae math o bêl-droed ymosodol yn nhraddodiad y Darans. Mae'r rhediad diweddar yn y gynghrair yn profi hynny. Yn anffodus, ni fydd tlws i'w arddangos yn Padarn Road eleni. Gall Terry 'ymddeol' gan wybod ei fod yn gadael sylfeini cadarn ar ac oddi ar y cae i'w olynydd. Diolch iddo am ei ymroddiad i bêl-droed yr ardal, ac ni allaf gredu ei fod yn cerdded i ffwrdd yn gyfangwbl o glwb y Darans. Mae ganddo brofiad a chyfraniad o hyd.

TLWS YR ECO 2015

Unwaith eto mae'n amser paratoi ar gyfer y gystadleuaeth boblogaidd hon. Yr un fydd y drefn gyda chystadlaethau dan 9 a dan 11. Y dyddiadau pwysig yw Nos Fercher a Nos Iau, Gorffennaf 8ed a 9ed. Cynhelir yr oedran dan 9 ar y nos Fercher ar faes Eithin Duon, Llanrug. Mae deryn bach yn dweud fod cryn waith am ei wneud ar y cae, felly ceir cyfleusterau arbennig i'n pêl-droedwyr disglair. Nid oes lleoliad wedi ei bennu ar gyfer yr oedran hŷn, felly dyma gyfle i unrhyw glwb lleol gynnig gwahoddiad. Y cyntaf i'r felin... Nid yw chwyddiant yn effeithio ar y gystadleuaeth hon felly yr un yw'r tal cystadlu sef £10 y tim. Ymlaen a'r hyfforddi felly.



Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

DRYSAU □ FFENESTRI

A CONSERFATORIS UPVC

AMCANBRIS AMDDIM

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652



Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED

PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED

PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ 07759415753

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

Chwaraeon

Pencampwr Snwcer Ewrop



Peter Roscoe, Haydn Parry a Wayne Morgan gyda Jac yn gwisgo côt ei dad.

Ddiwedd Mawrth a dechrau Ebrill roedd Peter Roscoe o Gaeathro yn cynrychioli un o bedwar tim o Gymru ym Mhencampwriaeth Timau Snwcer Hŷn Ewrop yng Ngwesty Dolmen, St Paul's Bay, Ynys Malta. Mae'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn flynyddol i dimau o ddau chwaraewr snwcer sydd dros 40 oed. Eleni roedd 24 o dimau o 14 gwlad wahanol yn cystadlu, a'r rheini'n ymestyn o Iwerddon yn y gorllewin i Rwsia yn y dwyrain, a'r gystadleuaeth yn parhau am chwe niwrnod.

Partner Peter oedd Wayne Morgan o Cross Keys, de Cymru, yn cael eu hyfforddi gan Haydn Parry o Gaernarfon. Roeddent yn amddiffyn y teitl a enillwyd ganddynt y llynedd yn Bucharest, Romania, ond yn cystadlu fel Tim 3 Cymru eleni.

Roedd chwech o dimau ym mhob grŵp, ac enillodd Peter a Wayne bob un o'u gemau, gan guro Malta (4-1), Israel (4-1), Yr Alban (4-1), Iwerddon (4-1) a'r Iseldiroedd (5-0). Curo fu eu hanes yn y ddwy rownd nesaf hefyd, sef 4-0 yn erbyn yr Iseldiroedd a 4-2 yn erbyn Malta. Yn y rownd gyn-derfynol, enillwyd yn erbyn Lloegr o 4-1.

Tim 1 Cymru oedd eu gwrthwynebwyr yn y ffeinal, sef Darren Morgan (brawd i bartner Peter) ac Elfed Evans, Pwllheli. Dyma'r tim ddaeth yn bencampwyr y byd y llynedd, felly roedd gêm galed yn wynebu'r ddau. Er hynny, roeddent yn eithaf ffyddiog gan iddynt ennill yn eu herbyn yn y gystadleuaeth hon y llynedd. Ac felly y bu hi eleni eto, gan ennill o 4-2.

Roedd ennill eleni wedi rhoi boddhad arbennig i Peter oherwydd i'w deulu, (Rhian, a Jac y mab) hedfan drosodd i'w cefnogi ar ddiwedd y gystadleuaeth. Dyma'r tro cyntaf i Jac wyluo ei dad yn chwarae snwcer dros Gymru, a does ryfedd ei fod yn mwynhau gwisgo côt tim Cymru yn y llun.



Dau gymydog, dwy gêm, sawl cap ...

Llongyfarchwyd Rhun Williams o Lanrug yn rhifyn diwethaf yr "Eco", a hynny ar ennill ei gap cyntaf i Gymru fel chwaraewr rygbi. Ond yn byw gyferbyn ag ef yn Buarthau mae Irfon Thomas, un sydd wedi gwyluo Rhun yn tyfu i fyny o blentyn bach i gawr ifanc. Enillodd Irfon hefyd ei gap cyntaf i Gymru bedwar deg a phump o flynyddoedd yn ôl; am chwarae pêl-droed, wrth gwrs, gan nad oedd son am chwarae rygbi yn y fro hon bryd hynny!

Stori ar Tudalen 31